Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN**<br>**13 GORFFENNAF 2020**<br>**10.00 o'r gloch** | | **MONDAY**<br>**13 JULY 2020**<br>**10.00 am** |
| **CYFARFOD RHITHIOL** | | **VIRTUAL MEETING** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes**<br>**01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Ar hyn o bryd nid yw'r Pwyllgor hwn yn cael ei wê-ddarlledu'n fyw.**
**Bydd recordiad o'r cyfarfod ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosibl.**

# R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod rhithiol o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2020.

**4** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 11 - 20)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **GWAITH CYNLLUNIO CYNNAR AR GYFER ADFER YN DILYN YR HAINT CORONAFEIRWS** (Tudalennau 21 - 30)

Cyflwyno adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

**6** **COVID-19 - EFFAITH ARIANNOL AR Y CYNGOR** (Tudalennau 31 - 42)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7** **CRYNODEB O GYFRIFON TERFYNOL DRAFFT 2019/20** (Tudalennau 43 - 56)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**Y PWYLLGOR GWAITH**

**Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 15 Mehefin, 2020**

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G.Parry, OBE, FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant / Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Rheolwr Rhaglen (AH) (ar gyfer eitem 9)<br>Swyddog Cyfathrebu (GJ)<br>Swyddog Cyfathrebu dan Hyfforddiant (CP)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Ni dderbyniwyd yr un ymddiheuriad. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Kenneth Hughes, Bryan Owen, Dafydd Roberts. |

---

Cyn cychwyn ar fusnes y cyfarfod, eglurodd y Cadeirydd na fyddai gweddarllediad byw o'r cyfarfod hwn ar gael, a hynny oherwydd ei fod yn cael ei gynnal fel cyfarfod rhithwir. Fodd bynnag, byddai recordiad o'r trafodaethau ar gael ar wefan y Cyngor cyn gynted ag y bo modd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith y bydd Mr Alwyn Rhys Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn gadael yr Awdurdod i ymgymryd â swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam; ar ran y Pwyllgor Gwaith diolchodd iddo am ei wasanaeth gwerthfawr yn ystod ei amser gyda Chyngor Sir Ynys Môn a dymunodd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol yn bersonol ac yn broffesiynol.

Yna cafwyd munud o dawelwch er cof am y diweddar Gynghorydd Shaun J. Redmond a fu farw ym mis Ebrill a hefyd i gofio am bawb a gollodd eu bywydau i’r feirws Covid-19.

## 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.



DRAFT

## 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI

Nid oedd dim materion brys.

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 23 Mawrth, 2020 i'w cadarnhau

**Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 23 Mawrth, 2020 fel rhai cywir.**

## 4. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaenraglen Waith y Pwyllgor hwn am y cyfnod rhwng Gorffennaf, 2020 a Chwefror, 2021 a nodwyd yr eitemau newydd canlynol -

- Eitem 2 - Cynllun Adfer Covid-19 (ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf, 2020)
- Eitem 4 - Unedau Ychwanegol ar safle Marquis, Rhosybol (ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf, 2020)
- Eitem 14 - Cyflwyno cais llawn i'r Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol (IDA) i Ynys Môn gael ei hachredu â statws Cymuned Awyr Dywyll Ryngwladol (ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2020).

Hysbyswyd y Pwyllgor Gwaith ymhellach y byddai eitem 3 ar y Rhaglen Waith – Cymeradwyo'r Cynllun Bioamrywiaeth - a oedd i'w hystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, 2020 yn cael ei hailraglennu i'w thrafod ar ddyddiad i'w gytuno.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Gorffennaf, 2020 hyd at Chwefror, 2021 gyda'r newid ychwanegol a gyflwynwyd yn y cyfarfod.**

## 5. MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 4 2019/20

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn nodi'r sefyllfa alldro refeniw dros dro am y cyfnod 1 Ebrill, 2019 i 31 Mawrth, 2020 gan gynnwys y prif amrywiadau yn y gyllideb.
Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y sefyllfa ariannol gyffredinol ar gyfer 2019/20 gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a Chronfa'r Dreth Gyngor yn danwariant o £0.308m sy'n sylweddol well na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol ac sydd wedi digwydd i raddau helaeth o ganlyniad i wasanaethau yn lleihau gwariant yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ac oherwydd derbyn cyllid grant ychwanegol. Mae hyn yn rhoi hwb i'w groesawu i gyllid y Cyngor gan gynyddu'r Gronfa Gyffredinol i £7.061m sy'n arbennig o bwysig o ystyried effaith debygol argyfwng Covid-19 sydd eisoes yn amlwg yn sgil colli incwm a chostau ychwanegol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod canlyniad alldro dros dro'r gyllideb refeniw yn welliant sylweddol ar yr amcangyfrif ar ddiwedd Chwarter 3. Mae eitemau penodol â gwariant cyfalaf llai na'r disgwyl a arweiniodd at fenthyca llai a dim galwadau sylweddol ar gyllidebau wrth gefn yn ystod y chwarter olaf wedi bod o gymorth yn hyn o beth. Mae darpariaeth i adlewyrchu addasiad i gyfrifon 2018/19 mewn perthynas â dyledion drwg sydd wedi'i chynnwys yn y ffigyrau ers dechrau'r flwyddyn ariannol wedi cael ei hailystyried ac erbyn hyn penderfynwyd nad oes mo'i hangen ac mae

hynny wedi arwain at arbediad o dros £100k. Yn ogystal, mae cau rhai gwasanaethau o ganlyniad i gyfyngiadau'r cyfnod clo yn ystod pythefnos olaf mis Mawrth hefyd wedi cyfrannu at y sefyllfa well.

Dywedodd y Swyddog fod Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn parhau i fod yn destun pryder oherwydd bod gorwariant o £1,138k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (4.5% o'r gyllideb) er gwaethaf y Grant Pwysau'r Gaeaf o £ 371k. Heb y grant hwnnw byddai'r sefyllfa ariannol wedi bod yn waeth o lawer. Er bod y Cyngor wedi cymeradwyo cynnydd o £1m yn y gyllideb ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion pan osododd y gyllideb ar gyfer 2020/21 ym mis Mawrth, nid oes sicrwydd y bydd hyn yn ddigonol i gwrdd ag anghenion y gwasanaeth yn enwedig gan y gallai fod pwysau cynyddol ar y gwasanaeth wrth i'r Cyngor ddod allan o'r argyfwng cyfredol.

Un agwedd nad oedd yn cael sylw yn yr adroddiad yw'r effaith ar falansau ysgolion. Mae gan dair o bum ysgol uwchradd yr Ynys ddiffyg ariannol bellach ac mae cyfanswm y diffyg yn yr ysgolion uwchradd yn £693k. Er bod gan naw ysgol gynradd ddiffyg ariannol, mae gan y sector cynradd yn ei gyfanrwydd warged o £975k. At ei gilydd, mae balansau ysgolion wedi gostwng yn sylweddol gan fod ysgolion wedi defnyddio cyllid wrth gefn i gydbwyso eu cyllidebau. Byddai hynny wedi digwydd yn 2020/21 hefyd er nad yw effaith cau'r ysgolion am gyfnod estynedig o ganlyniad i'r argyfwng yn hysbys eto.

Fel rhan o'r diweddariad ar sefyllfa'r gyllideb refeniw gofynnwyd i'r Pwyllgor Gwaith hefyd gymeradwyo rhyddhau £85k o'r gronfa wrth gefn gyffredinol i gwrdd â'r gost o ailbaentio Pier Biwmares; byddai'r arian hwnnw'n ychwanegu at gronfa wrth gefn y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd o £100k at y diben hwnnw ac felly'n golygu y gallai'r gwaith ddechrau cyn gynted ag y bo modd.

Er gwybodaeth, dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod cyfrifon drafft y Cyngor ar gyfer 2019/20 bellach wedi'u cwblhau ac y byddent yn cael eu cyhoeddi heddiw yn unol â'r amserlen statudol. Manteisiodd ar y cyfle hwn i ddiolch i staff y Gwasanaeth Cyllid am gyflawni'r hyn sydd ar y gorau yn dasg feichus ac sydd wedi'i gwneud hyd yn oed yn fwy heriol gan yr amgylchiadau presennol gyda chyfran fawr o staff y gwasanaeth yn gweithio o bell. Mae gallu cau'r cyfrifon mewn modd amserol yn golygu y gellir cynnal yr archwiliad ffurfiol yn awr i wirio datganiadau ariannol y Cyngor, gan golygu y gall y Cyngor fod yn glir ynghylch ei sefyllfa ariannol ar ddiwedd 2019/20 a bod y hyderus na fydd y ffigyrau hynny'n newid wrth symud ymlaen i'r flwyddyn ariannol newydd.

Ychwanegodd yr Aelod Portffolio Cyllid ei ddiolchiadau yntau hefyd i staff y Gwasanaeth Cyllid am eu gwaith yn cwblhau'r cyfrifon ac yn ymateb i'r argyfwng ac adleisiwyd ei sylwadau gan y Pwyllgor Gwaith a oedd hefyd yn cydnabod arwyddocâd sefyllfa well y gyllideb refeniw a phwysigrwydd cynnal lefel y cronfeydd wrth gefn o gofio'r heriau yr oedd y Cyngor yn debygol o'u hwynebu yn y flwyddyn i ddod.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B yr adroddiad mewn perthynas â pherfformiad ariannol amodol yr Awdurdod ar alldro 2019/20.**
- **Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2019/20 fel y manylir yn Atodiad C yr adroddiad.**
- **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â sefyllfa'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH yr adroddiad.**
- **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2019/20 yn Atodiad D yr adroddiad**

- **Nodi monitro costau asiantaeth ac ymgynghoriaeth ar gyfer 2019/20 yn Atodiadau DD, E ac F yr adroddiad.**
- **Rhyddhau £85k o’r balansau cyffredinol i sicrhau bod cyllid digonol ar gael i wneud y gwaith paentio ar Bier Biwmares.**

**6. ADRODDIAD ALLDRO CYFALAF 2019/20**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 .

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod crynodeb o wariant cyfalaf hyd at 31 Mawrth, 2020 i'w weld yn y tabl ym mharagraff 2.1 o'r adroddiad. 'Roedd y gyllideb ar gyfer y Gronfa Gyffredinol yn £29.790m a gwariwyd £18.203m erbyn 31 Mawrth, 2020, sy'n cyfateb i 61% o'r gyllideb. Mae'r ffaith bod llai o gynnydd na'r disgwyl wedi ei wneud gyda phrosiectau mawr a ariennir gan grant fel y'u rhestrir ym mharagraff 2.2 yr adroddiad ymhlith y resymau am y tanwariant, ac mae'r argyfwng Covid-19 yn un ffactor yn yr oedi. Bydd y prosiectau hyn yn llithro i 2020/21 ynghyd â'r cyllid grant ar eu cyfer.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) nad yw lefel y tanwario, er ei fod yn sylweddol (32% o'r cyllid sydd ar gael) yn annisgwyl wrth ddelio â nifer o brosiectau cymhleth mawr y gall ystod o ffactorau effeithio ar eu cynnydd, gan gynnwys materion annisgwyl sy'n yn gallu codi ar ôl i'r gwaith ddechrau ar y safle. Darperir manylion am statws a chynnydd y cynlluniau grant cyfalaf cyfredol yn adran 3 yr adroddiad. Ym mhob achos, sicrhawyd y cyllid ar gyfer y prosiectau a bydd yn cael ei ddwyn ymlaen i 2020/21, heb i’r Cyngor golli adnoddau. Cafodd elfen o lithriad ei hadeiladu i mewn i gyllideb 2020/21 - mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r ffigyrau hynny.

Wrth ystyried yr adroddiad, gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am sicrwydd pellach ynghylch argaeledd cyllid grant yng ngoleuni'r llithriad ar y rhaglen gyfalaf a holodd hefyd a yw argyfwng Covid-19 yn peri rsg i brosiectau cyfalaf y Cyngor yn sgil cyflwyno mesurau arbennig a'r costau uwch y gallai hyn ei olygu.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod y grant mwyaf yn ymwneud â rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac er bod cynlluniau ym Mand A a Band B y rhaglen a'r cyllid grant ar eu cyfer wedi'i gadarnhau ac yn ddiogel ar hyn o bryd, pe na bai cynnydd yn cael ei wneud efallai y bydd yn rhaid diwygio'r cynlluniau hynny a gallai hynny, yn ei dro, effeithio ar lefel y cyllid grant gan Lywodraeth Cymru. Fel arall, bydd cyllid ar gyfer prosiectau sydd wedi llithro i 2020/21 yn cael ei gario drosodd gyda nhw. O ran effaith argyfwng Covid-19 ar brosiectau cyfalaf, ar gyfer y cynlluniau hynny lle cytunwyd ar y contract a lle mae'r gwaith wedi cychwyn, bydd raid edrych ar unrhyw gostau ychwanegol y gallai contractwyr eu hawlio oherwydd yr angen i weithredu mesurau arbennig o ganlyniad i Covid-19 yng nghyd-destun telerau'r contract. O ran contractau newydd sydd heb eu dyfarnu eto, bydd tendrau ar gyfer y gwaith hwnnw'n adlewyrchu costau'r ffyrdd newydd o weithio oherwydd argyfwng Covid-19; bryd hynny bydd y Cyngor yn gwerthuso'r effaith ar y gyllideb gyfalaf ac yn ceisio sefydlu faint o'r costau ychwanegol y gellir eu hawlio trwy grant, os o gwbl. Amser a ddengys a fydd cyrff cyllido grantiau yn cydnabod effaith Covid-19 ar gostau ac ar y prosiectau a gyflwynwyd eisoes ac y cadarnhawyd cyllid grant ar eu cyfer.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi sefyllfa alldro drafft Rhaglen Gyfalaf 2019/20 sy’n destun archwiliad, a**

- **Cymeradwyo cario £12.109m drosodd i 2020/21 ar gyfer tanwariant ar y rhaglen oherwydd llithriad. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cario drosodd i 2020/21. Y gyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2020/21 yw £41.368m.**

## 7. MONITRO ALLDRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI AM 2019/20

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod manylion incwm a gwariant o dan y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2019/20 i'w gweld yn Atodiad A i'r adroddiad ac yn dangos bod tanwariant yn y cyfrif o £1k ar yr ochr refeniw gyda'r incwm £264k yn uwch na'r gyllideb wreiddiol a'r gwariant £263k yn uwch na'r gyllideb wreiddiol. Roedd gwariant cyfalaf £2,305k yn is na'r gyllideb fel y manylwyd yn Atodiad B i'r adroddiad. Mae'r diffyg, ar ôl cyfuno refeniw a chyfalaf, yn £2,316k yn llai na'r gyllideb sy'n cynhyrchu gwarged o £209k.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, er bod ochr refeniw'r Cyfrif fwy neu lai yn unol â'r gyllideb, roedd yr ochr gyfalaf yn cael ei heffeithio gan y cyfnod clo tua diwedd mis Mawrth; fel rheol byddai llawer iawn o waith yn cael ei wneud ar brosiectau tai ym mis Mawrth, ond yn ystod pythefnos olaf y mis eleni caewyd safleoedd yn sgil cyflwyno cyfyngiadau'r cyfnod clo. Balans terfynol y CRT ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/20 oedd £8,597k; mae'r arian hwn wedi'i gyfyngu i'w ddefnyddio at ddibenion penodol ac nid yw ond ar gael i ariannu gwariant CRT.

**Penderfynwyd nodi'r sefyllfa mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) am y flwyddyn ariannol 2019/20.**

## 8. CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI AM Y CYFNOD 2020-2050

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn ymgorffori Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai am y cyfnod 2020 i 2050.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau wrth gyflwyno'r adroddiad ac argymell y Cynllun Busnes i'r Pwyllgor Gwaith fod y Cynllun yn cyflwyno gweledigaeth glir a chadarnhaol o amcanion y Cyngor ar gyfer pob deiliadaeth tai ar yr Ynys er mwyn cwrdd orau ag anghenion tai ac i sicrhau safonau tai uchel i'w holl ddinasyddion. Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, rhaid i'r Cyngor baratoi Cynllun Busnes erbyn diwedd mis Mawrth er mwyn sicrhau ei lwfans gwaith atgyweirio mawr blynyddol o £2.65m. Cyflwynwyd y Cynllun Busnes erbyn y dyddiad perthnasol yn amodol ar iddo gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod y Cynllun Busnes wedi'i baratoi ar y cyd â Swyddogion y Gwasanaeth Cyllid a'i fod yn darparu cyfoeth o wybodaeth am weithgaredd y Gwasanaeth Tai a'i weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Mae hefyd yn gyfrwng allweddol ar gyfer gwaith cynllunio ariannol i gyflawni a rheoli stoc dai'r Cyngor. Yn benodol, mae'r Cynllun yn dangos sut mae'r Cyngor yn sicrhau bod ei holl stoc yn cwrdd â Safonau Ansawdd Tai Cymru; sut mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal a rhagori ar y Safonau hynny yn ogystal â'r buddsoddiad sydd ei angen i gynyddu'r stoc dai. Mae'r Cyngor, trwy ei Gyfrif Refeniw Tai, yn rheoli ac yn berchen ar 3,857 o anheddau ac ychydig dros 700 o garejis ledled yr Ynys. Dros oes y Cynllun Busnes, bydd y stoc yn cynyddu i dros 5,000 o unedau. Amcangyfrifwyd bod y Rhaglen Gyfalaf, sydd wedi'i chynnwys yn y Cynllun Busnes, yn werth £10.84m ac mae'n cynnwys darpariaeth ar gyfer gwaith mewnol ac allanol, gwaith adfer, addasiadau a gwaith effeithlonrwydd ynni ac mae'n caniatáu ar gyfer cydymffurfio'n llawn â Safonau Ansawdd Tai Cymru trwy dargedu methiannau derbyniol. Mae darpariaeth o £4.7m wedi'i chynnwys yn y

DRAFT

gyllideb refeniw ar gyfer gwaith atgyweirio a gwaith cynnal a chadw ac mae £9.6m yng nghyllideb 2020/21 ar gyfer rhaglen datblygu tai Cyngor newydd ac i brynu hen dai cyngor yn ôl.

Croesawyd y cynllun gan y Pwyllgor Gwaith a oedd yn ei weld hefyd fel cyfrannwr pwysig tuag at yr economi leol trwy ddatblygu tai cymdeithasol newydd a gwaith atgyweirio a chynnal a chadw parhaus.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r Cynllun Busnes 2020-2050 ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ac yn arbennig cyllideb y CRT ar gyfer 2020-21 sydd wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.**
- **Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer Tai am 2020/21 fel y nodir yn y Gyllideb Gyfalaf.**

## 9. MODEL BUDDSODDI CYDFUDDIANNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i fynd i Gytundeb Partneru Strategol gyda Chwmni Parneriaeth Addysg Cymru i hwyluso'r broses o ddarparu cyfleusterau addysg a chymunedol.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod Llywodraeth Cymru wedi dylunio Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC) i gyflawni prosiectau seilwaith cyfalaf mawr yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannol ariannu rhai o'r prosiectau trwy'r cynllun MBC gan ddefnyddio cyllid refeniw, yn rhannol oherwydd prinder cyllid cyfalaf. Bydd Llywodraeth Cymru yn penodi partner sector preifat a fydd wedyn yn ffurfio Cwmni Partneriaeth Addysg Cymru (CPAC) gydag is-gwmni i Fanc Datblygu Cymru. Ar ôl ffurfio CPAC bydd gofyn iddynt hwy a'r holl gyfranogwyr lofnodi Cytundeb Partneriaeth Strategol (CPS) a fydd yn darparu ar gyfer sut mae'r partïon yn cydweithredu dros y tymor hir i gefnogi cynllunio, caffael a chyflawni gwasanaethau seilwaith, addysg a chyfleusterau cymunedol yng Nghymru mewn modd effeithiol. Dim ond CPAC all gyflawni prosiectau MBC. Fodd bynnag, nid yw llofnodi'r CPS yn ymrwymo'r Cyngor i gymryd rhan mewn unrhyw gynllun MBC ond yn hytrach mae'n rhoi cyfle iddo gymryd rhan mewn cynllun MBC pe bai prosiect addas yn cael ei nodi yn y dyfodol ac mae hefyd yn rhoi mwy o sgôp i ddenu cyllid grant gan Lywodraeth Cymru.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod y Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn ffordd newydd o ariannu cynlluniau yng Nghymru a'i fod wedi bod yn y broses o gael ei ffurfio ers 2017. Ar gyfer prosiectau Band A a llawer o'r prosiectau Band B yn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ariannu ei chyfraniad trwy grant neu'r drefn benthyca â chymorth i awdurdodau lleol; rhaid i Lywodraeth Cymru ei hun fenthyca i ariannu'r ffordd hon o weithio hyd at bwynt lle mae'r benthyciad wedyn yn cael ei gapio. Mae'r cynnig yn ffordd i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol drosglwyddo costau cyfalaf a benthyca i gostau refeniw. Bydd Llywodraeth Cymru yn penodi partner sector preifat ac is-gwmni i Fanc Datblygu Cymru i ffurfio'r CPAC; yna bydd awdurdodau yn gwneud taliad blynyddol dros 25 mlynedd i CPAC am ddefnyddio adeiladau (ysgolion neu adeiladau eraill) sydd wedi'u hadeiladu o dan y cynllun MBC. Yn hytrach na chyfrannu 50% tuag at adeiladau ysgolion newydd trwy drefniadau grant a benthyca, bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu 81% o gostau refeniw blynyddol cyngor i gwrdd â'r taliad blynyddol i CPAC. Yn wahanol i drefniadau Menter Cyllid Preifat lle roedd cynghorau nid yn unig yn gorfod gwneud taliad blynyddol am yr adeiladau a gomisiynwyd ond hefyd yn gorfod talu costau ystod o wasanaethau ategol - glanhau ac ati - a allai fod yn uchel, a lle roeddent wedi eu cyfyngu hefyd o ran y newidiadau y gallent eu gwneud eu

hunain ac yn gorfod gwneud taliadau ychwanegol i'r contractwr i wneud mân newidiadau, nid oes y fath gyfyngiadau dan y drefn MBC. Bydd CPAC yn gyfrifol am brif adeiladwaith yr adeilad ac mae cynghorau yn rhydd i wneud newidiadau eraill e.e. paentio fel y dymunant ar eu cost eu hunain. I ddechrau, bydd yr MBC yn berthnasol i brosiectau £15m a throsodd felly mae'n bosib na fydd yn berthnasol i'r rhan fwyaf o brosiectau Ynys Môn, gan gynnwys ei hysgolion cynradd newydd sy'n annhebygol o gyrraedd y trothwy cost hwn. Fodd bynnag, bydd llofnodi'r Cytundeb Partneriaeth Strategol yn rhoi'r opsiwn i'r Cyngor gymryd rhan mewn prosiect MBC yn y dyfodol; mae peidio â llofnodi yn golygu pe bai'r Cyngor eisiau ymrwymo i'r Cytundeb Partneriaeth yn ddiweddarach, yna byddai angen caniatâd yr holl gyfranogwyr i wneud hynny.

Pwysleisiodd y Rheolwr Prosiect nad yw'r Cyngor, wrth ymuno â'r CPS, yn ymrwymo i unrhyw brosiect MBC ar hyn o bryd, a'r unig ymrwymiadau fyddai pe bai'n dymuno cymryd rhan mewn prosiect MBC yn y dyfodol byddai'n cael ei gyflawni yn unig trwy CPAC a bod y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Adran 151 yn cael ei benodi i eistedd ar y Bwrdd a fydd yn goruchwylio perfformiad CPAC.

Ar ôl ceisio a derbyn sicrwydd ynghylch yr MBC o ran maint ymrwymiad y Cyngor ar hyn o bryd yn ogystal â natur y rhwymedigaethau a fyddai'n disgyn ar y Cyngor pe bai'n cymryd rhan mewn prosiect MBC yn y dyfodol, roedd y Pwyllgor Gwaith yn hapus i awdurdodi ymrwymo i'r Cytundeb Partneru Strategol.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi cynnydd Cam Cynigydd a Ffefrir y Weithdrefn Deialog Cystadleuol o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 fel yr amlinellir yn yr adroddiad.**
- **Cymeradwyo cyflawni, cyflenwi a pherfformio'r Cytundeb Partneriaeth Strategol gyda Chwmni Partneriaeth Addysg Cymru yn Hydref 2020 i hwyluso cyflawni ystod o wasanaethau seilwaith ynghyd â chyflawni cyfleusterau addysg a chymunedol.**
- **Cymeradwyo'r Cytundeb Partneriaeth Strategol a grynhowyd yn Atodiad 2 o'r adroddiad er mwyn gweithredu argymheliad 2 uchod, yn amodol ar argymhelliad 4 isod -**
- **Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro –**

  - **I gymeradwyo telerau terfynol y Cytundeb Partneriaeth Strategol a gymeradwywyd yma a all fod yn anghenrheidiol am resymau sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gwblhau unrhyw faterion sydd heb eu penderfynu, a**
  - **Chymeradwyo unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n ategol i'r Cytundeb Strategol yma.**

- **Nodi y caiff Cytundeb Partneriaeth Strategol ei gyflawni fel gweithred a'i ardystio yn unol ag Erthygl 14.5 y Cyfansoddiad.**
- **Cymeradwyo penodi y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn "Gynrychiolydd y Cyfranogwr" i eistedd ar y Bwrdd Partneriaeth Strategol (BPS).**
- **Nodi wrth gytuno i'r Cytundeb Partneriaeth Strategol nad oes gofyn iddo benderfynu bwrw ymlaen ag unrhyw brosiect penodol, ac nad oes unrhyw beth o fewn y SPA sy'n ymrwymo'r Cyngor i wneud ymrwymiad o'r fath. Bydd unrhyw benderfyniad i fwrw ymlaen â phrosiect penodol yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu arno yn y dyfodol.**

## 10. DIWEDDARIAD AR YMATEB Y CYNGOR HYD YMA I COVID-19

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr yn amlinellu ymateb y Cyngor hyd yma i'r argyfwng Covid-19 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cadeirydd ac Arweinydd y Cyngor yr eitem trwy ddiolch i staff y Cyngor am eu gwaith hyd yn hyn, gan ychwanegu bod llawer ohonynt wedi mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau arferol i gefnogi ymateb y Cyngor i'r heriau yn sgil yr achosion Covid-19 ac i warchod Gwasanaethau hollbwysig y Cyngor a chadw trigolion yr Ynys yn ddiogel.

Yna rhoddodd pob Aelod Portffolio drosolwg o'r camau a gymerwyd yn eu portffolios gwasanaeth i ymateb yn benodol i'r argyfwng a hefyd i sicrhau bod gwasanaethau allweddol yn parhau i gael eu darparu (a amlinellwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad). Mynegodd pawb eu gwerthfawrogiad o ymdrechion staff eu gwasanaethau wrth iddynt ddelio â'r amgylchiadau heriol iawn a achosir gan yr argyfwng tra'n sicrhau ar yr un pryd bod gwaith dydd i ddydd y Cyngor yn parhau a bod busnes arferol yn cael ei gynnal cyn belled ag y bo modd.

Roedd y themâu o feysydd gwasanaeth unigol ar hyn o bryd ac wrth symud ymlaen yn cynnwys y canlynol -

- **Adnoddau** - Gwnaed taliadau grant i 1,518 o fusnesau ar yr Ynys a oedd yn werth cyfanswm o £17.7m; prosesu Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim gyda chyfartaledd wythnosol o 1,489 o blant ac yn werth £29,035 ; darparu pecynnau bwyd ar gyfer nifer fach o blant; parhau â'r gwaith arferol ar ffurf taliadau treth gyngor ac ati; monitro sefyllfa ariannol a balansau'r Cyngor yn barhaus.
- **Addysg –** sefydlu canolfannau gofal ar gyfer plant gweithwyr allweddol a phlant bregus; darparu a danfon pecynnau cinio i blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim; darparu addysg o bell gan ddefnyddio amrywiaeth o lwyfannau digidol; cydweithio a'r Timau ADY a Chynhwysiant a'r Gwasanaethau Plant i gadw mewn cyswllt rheolaidd â phlant bregus; cynllunio ar gyfer ailagor ysgolion; sicrhau pwyslais parhaus ar les plant a phobl ifanc a lles cyffredinol y gweithlu.
- **Tai a'r Gymuned** – cefnogi unigolion bregus yn y gymuned trwy fanciau bwyd, darparu gwasanaeth siopa a phresgripsiwn ar gyfer unigolion sy'n cysgodi; cefnogi pobl ddigartref, cynnal diogelwch cymunedol, ailddechrau gwaith cynnal a chadw brys ar dai yn unol â chanllawiau cenedlaethol.
- **Priffyrdd, Trafnidiaeth ac Eiddo –** blaenoriaethu'r gwasanaethau gwastraff pwysicaf mewn ymgynghoriad â Biffa; cynllunio ar gyfer ailagor Canolfan Ailgylchu Penhesgyn a'i weithredu; ailddechrau gwaith cynnal a chadw hanfodol ar briffyrdd, cau meysydd parcio arfordirol, llwybrau arfordirol, parciau a thraethau.
- **Busnes y Cyngor a Chyfreithiol** - creu Llyfrgell o Ganllawiau a Rheoliadau Covid-19; creu strategaeth cyfarfodydd Pwyllgor; darparu canllawiau ar gyfarfodydd o bell, cofnodi a thracio gweithredoedd o gyfarfodydd dyddiol y Tîm Rheoli Ymateb i Argyfyngau a chyfarfodydd brys eraill.
- **Adnoddau Dynol, Trawsnewid, Cyfathrebu a TG –** gwaith rhagweithiol yn cynhyrchu datganiadau i'r wasg yn rheolaidd, gwneud y defnydd mwyaf o gyfryngau cymdeithasol y Cyngor i drosglwyddo negeseuon allweddol a rhannu gwybodaeth ar Môn FM; casglu data staff yn ddyddiol i bwrpas cynllunio'r gweithlu ac adleoli staff i sicrhau parhad gwasanaethau rheng flaen; casglu data ar agweddau ar Covid-19 a datblygu dangosfwrdd at y diben; hwyluso a chefnogi staff y Cyngor i weithio o bell; datblygu system archebu ar-lein ar gyfer mynediad i Ganolfan Ailgylchu Penhesgyn; diweddaru hen gliniaduron y Cyngor i helpu plant nad oes ganddynt fynediad at offer TG gyda'u gwaith ysgol.
- **Rheoleiddio, Datblygu Economaidd a Gwarchod y Cyhoedd –** ymgysylltu â busnesau lleol i gynnig cefnogaeth ac arweiniad mewn perthynas â'r materion a'r heriau a wynebir; cefnogi busnesau sydd ar gau; gweithio i sicrhau cydnabyddiaeth i

DRAFT

Borthladd Caergybi ac i geisio pecyn cymorth priodol gan y Llywodraeth; cydweithredu â'r Bwrdd Iechyd a'r Ysbyty Maes; cymryd rhan mewn ymdrechion lleol a rhanbarthol i sefydlu tîm olrhain cyswllt; cynyddu capasiti'r Gwasanaeth Cofrestryddion; sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau a rheoliadau newydd yn sgil y Ddeddf Coronafeirws; monitro achosion mewn cartrefi preswyl a darparu hyfforddiant ar reoli heintiau; cyfrannu at ddatblygu cynllun rhanbarthol ar gyfer trefniadau ynghylch marwolaethau ychwanegol..

- **Gwasanaethau Cymdeithasol –** delio â heriau sicrhau a chynnal lefelau digonol o Gyfarpar Diogelu Personol; profi; lliniaru'r risg o fethu â staffio cartrefi gofal yn ddigonol; olrhain ac ymateb i lythyrau cysgodi; cefnogi teuluoedd bregus; parhau i gyflawni'r holl ddyletswyddau statudol a dangosyddion perfformiad a data.

DRAFT

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid ymhellach, er ei bod yn anodd asesu effeithiau tymor hir y pandemig ar gyllid y Cyngor, yn y tymor byr mae'r Cyngor wedi cael costau ychwanegol wrth ddelio â'r argyfwng (£52k ym mis Mawrth a £279K ym mis Ebrill) gan gynnwys costau TG; PPE; lletya pobl ddigartref, darparu cefnogaeth gymunedol, sefydlu canolfannau gofal ysgol, talu am brydau ysgol am ddim a chostau glanhau uwch. Er y bydd y costau hyn yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru, disgwylir y bydd costau'n parhau i godi ym mis Mai a mis Mehefin. Er bod cau gwasanaethau wedi golygu tua £100k yn llai o wariant gan y Cyngor ym mis Ebrill mae hefyd wedi gostwng lefelau incwm y Cyngor a chollwyd £360k ym mis Ebrill a disgwylir i'r ffigwr godi i 400k y mis yn ystod misoedd yr haf. Os na fydd gwasanaethau'n dychwelyd i normal yn 2020/21, yna bydd yr incwm a gollwyd yn filiynau o bunnau. Wrth edrych i'r dyfodol, mae'n amlwg bod y pandemig wedi cael effaith ar yr economi a bydd yn arwain at fwy o ddiweithdra sy'n debygol o olygu mwy o geisiadau trwy'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, yn enwedig pan ddaw'r cynllun ffyrlo i ben. Oherwydd ei fod wedi mynd ati'n fwriadol dros y blynyddoedd i gynllunio a chynnal lefel o falansau cyffredinol, mae'r Cyngor yn ffodus ei fod nawr yn gallu defnyddio'r cyllid hwn i'w helpu i oroesi'r storm yn y tymor byr.

Adroddodd y Prif Weithredwr ar y trefniadau llywodraethu a sefydlwyd ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i ymateb i'r pandemig ac amlinellodd y strwythurau yr oedd y Cyngor wedi'u rhoi ar waith i hwyluso ei ymateb ei hun i'r heriau lleol a grëwyd gan yr argyfwng. Mae rhannu gwybodaeth wedi bod yn elfen allweddol wrth ddiweddaru'r cyhoedd am ddatblygiadau a'r cymorth sydd ar gael ac mae'r Cyngor wedi defnyddio ystod o fesurau i sicrhau llif gwybodaeth. Yn y tymor byr bydd y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar reoli effaith y pandemig Covid-19; ar wneud ei orau i barhau gyda busnes fel arfer ac ar reoli'r cyfnod clo a pharatoi a gweithredu cynlluniau adfer. Yn ei ymateb i'r pandemig mae'r Cyngor wedi derbyn cefnogaeth gan lawer o bobl eraill a rhaid diolch i'r Aelodau Etholedig; cynghorau tref a chymuned, holl bartneriaid y Cyngor, gwirfoddolwyr a thrigolion yr Ynys am y ffordd y maent wedi ymateb i'r argyfwng.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn yr adroddiad ac ymateb y Cyngor i'r argyfwng hyd yma.**
- **Cadarnhau y dylai'r UDA adrodd ar gynnydd ar faterion llacio'r datgloi a'r gwaith Adfer i'r ddau Fwrdd Rhaglen sefydlog. Yn ogystal, ymestyn aelodaeth y byrddau i gynnwys y 4 arweinydd grwp.**
- **Awdurdodi Swyddogion i baratoi diweddariad ar y paratoadau a'r gwaith Adfer i'w gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith.**

### 11. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**"Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad**

**ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”**

## 12. ESTYNIAD O 12 MIS I GONTRACT

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i ymestyn contract o fewn y Gwasanaeth Dysgu am 12 mis arall.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc yr amgylchiadau a oedd wedi golygu bod angen gwneud cais am estyniad ac eglurodd y byddai'r adran yn defnyddio cyfnod yr estyniad 12 mis i wahodd tendrau am gontract 4 blynedd newydd ar gyfer y gwasanaeth a nodwyd yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd cymeradwyo rhoi estyniad i gytundeb cyfredol gyda’r un darparwr o fewn y Gwasanaeth Dysgu am 12 mis pellach yn unol ag argymhelliad a sylwedd yr adroddiad.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFFT

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **13 Gorffennaf 2020** |
| **Pwnc / Testun:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| **A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau** |
|---|
| Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:<br><br>gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Medi 2020 – Ebrill 2021;**<br><br>Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor yn ystod argyfwng Covid-19 gan gydnabod y strategaeth ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor hyd at 30 Ebrill 2021 a gymeradwywyd gan arweinyddion grŵp ar 12 Mai 2020, sy'n nodi'r disgwyliadau o ran cynnal cyfarfodydd o'r pwyllgorau sgriwtini;<br><br>Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith. |

** Allwedd:* *S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| **-** |

| **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydy'. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Ddim yn berthnasol. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | |
| **5** | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | |

** Allwedd: S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)** | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe’i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)** | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a’r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Medi 2020 – Ebrill 2021. |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| |

** Allwedd:* *S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
**Cyfnod: Medi 2020 – Ebrill 2021**

Diweddarwyd 30 Mehefin 2020

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Medi 2020 – Ebrill 2021

Diweddarwyd 30 Mehefin 2020

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Medi 2020** | | | |
| 1 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Medi 2020 | |
| 2 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Medi 2020 | |
| 3 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2020/21 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Medi 2020 | |
| 4 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2020/21 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Medi 2020 | |



** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Medi 2020 – Ebrill 2021

Diweddarwyd 30 Mehefin 2020

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Cynllun Ariannol y Tymor Canolig** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Medi 2020 | |
| 6 | **Adolygiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2019/20** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Medi 2020 | Cyngor Llawn |
| 7 | **Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2019/20)**<br><br>Cymeradwyaeth ac argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol Medi 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Medi 2020 | Cyngor Llawn<br><br>Hydref 2020 |
| 8 | **Adroddiad Cynnydd o'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Dyddiad i'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 14 Medi 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Medi 2020 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Medi 2020 – Ebrill 2021

Diweddarwyd 30 Mehefin 2020

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Medi 2020 | Cyngor Llawn<br><br>Hydref 2020 |
| 10 | **Addasu'r Polisi Gosod i ymdrîn ag unigolion mewn llety argyfwng** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Medi 2020 | |
| 11 | **Unedau Ychwanegol ar safle Marquis, Rhosybol** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Medi 2020 | |
| | | | | **Hydref 2020** | | | |
| 12 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Hydref 2020 | |
| 13 | **Adroddiad Monitro Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd dros dro<br><br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Hydref 2020 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

Tudalen 17

## Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
### Cyfnod: Medi 2020 – Ebrill 2021

Diweddarwyd 30 Mehefin 2020

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Tachwedd 2020** | | | | | | |
| 14 | **Cyllideb 2021/22 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2 Tachwedd 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>9 Tachwedd 2020 | |
| | | | | | | | |
| 15 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Tachwedd 2020 | |
| 16 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Tachwedd 2020 | |
| 17 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2020/21 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Tachwedd 2020 | |

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Medi 2020 – Ebrill 2021

Diweddarwyd 30 Mehefin 2020

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 18 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2020/21 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Tachwedd 2020 | |
| 19 | **Datganiad Polisi Trwyddedu** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd dros dro<br><br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Tachwedd 2020 | Cyngor Llawn<br><br>8 Rhagfyr 2020 |
| | **Rhagfyr 2020** | | | | | | |
| 20 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Rhagfyr 2020 | |
| | **Ionawr 2021** | | | | | | |
| 21 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ionawr 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Medi 2020 – Ebrill 2021

Diweddarwyd 30 Mehefin 2020

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Chwefror 2021** | | | | | | | |
| 22 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Chwefror 2021 | |
| **Mawrth 2021** | | | | | | | |
| 23 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>22 Mawrth 2021 | |
| **Ebrill 2021** | | | | | | | |
| 24 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Ebrill 2021 | |



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **Dydd Llun, 13 Gorffennaf 2020** |
| **Pwnc:** | **Gwaith Cynllunio Cynnar ar gyfer Adfer yn dilyn yr haint Coronafeirws** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Arweinydd y Cyngor a phob Aelod o'r Pwyllgor Gwaith** |
| **Pennaeth / Cyfarwyddwr Gwasanaeth:** | **Annwen Morgan**<br>**Prif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Dylan J Williams, Dirprwy Brif Weithredwr**<br>01248 752 499<br>dylanwilliams@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Pob Aelod Etholedig** |

## A – Argymhelliad/argymhellion a Rheswm/rhesymau

**Cyflwyniad**

Bu cyfnod yr ymateb argyfwng i'r achos o Coronafeirws yn un eang, gan effeithio ar y Cyngor, cymunedau'r ynys a'r economi. Mae penderfyniadau ynglŷn â llacio'r cyfyngiadau'n dal i gael eu gwneud ar lefel genedlaethol ac yn cael eu cydlynu ar lefel ranbarthol a'u cyflawni'n lleol. Mae'r risgiau a'r heriau sydd ynghlwm â llacio'r cyfyngiadau yn sylweddol. Os bydd y trefniadau llacio yn llwyddiannus, a bod nifer yr achosion newydd o coronafeirws yn cael eu rheoli, yna bydd y wlad yn addasu ymhellach ac yn symud i'r cyfnod adfer.

Bydd newidiadau, heriau a chyfleoedd. Mae dyletswydd statudol ar y cyngor i arwain adferiad yr Ynys ac mae'n ymrwymedig i gynllunio ar ei gyfer ac i ymgymryd â'r rôl hon yn llawn, wrth barhau i gydweithio'n effeithiol. Tanlinellwyd y risgiau, yr ansicrwydd a'r heriau gan yr achos lleol a welwyd yn ddiweddar.

**Pwrpas yr Adroddiad**

**Diweddaru'r Pwyllgor Gwaith ynghylch strwythurau rhanbarthol a chynnydd a wnaed hyd yma o ran gwaith cynllunio cynnar ar gyfer yr adferiad, wrth gytuno ar strwythurau mewnol a chyfrifoldebau i oruchwylio ymhellach datblygiad y Cyngor a'r Ynys a'r hyn a ddysgwyd er mwyn cael effaith gadarnhaol ar y 'normal nesaf' ac adfer yn dilyn yr achos o coronafeirws. Parheir i flaenoriaethu a chanolbwyntio ar gyflenwi'n lleol a chyflawni canlyniadau cadarnhaol.**

V1.2 GM10.9.19

**Cyd-destun**

Daw Cynllunio Argyfwng ar gyfer y pandemig coronafeirws o dan ddeddfwriaeth Argyfyngau Sifil Posib ac mae'n cael ei arwain yn genedlaethol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Ar lefel Gogledd Cymru mae hyn yn cael ei gydlynu a'i arwain gan y Fforwm Cydnerthedd Lleol (lle mae'r sector cyhoeddus yn cydweithio), drwy'r Grŵp Cydlynu Strategol argyfwng. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am wneud penderfyniadau lleol a rhoi deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol ar waith. Mae yna rôl fonitro ac adrodd hefyd, drwy'r strwythurau, er mwyn dylanwadu a llywio.

Adroddwyd ar yr ymateb lleol i'r argyfwng a'r heriau uniongyrchol a wynebwyd (ers canol Mawrth 2020) yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Gwaith ar ddydd Llun, 15 Mehefin 2020 (https://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=134&MId=3689&Ver=4).
Mae camau bychain a pharatoadau trylwyr yn parhau i gael eu gwneud er mwyn llacio'r cyfyngiadau (yn gwbl unol ag egwyddorion a chanllawiau Llywodraeth Cymru).

Mae siopau yng Nghymru sy'n gwerthu nwyddau nad ydynt yn hanfodol wedi cael hawl i ailagor ers ddydd Llun, 22 Mehefin. Mae Gweinidogion wedi penderfynu codi'r gofyniad i aros yn lleol ar 6 Gorffennaf, ar yr amod bod yr amodau'n caniatáu hynny. Ar ôl codi'r gofyniad, bydd modd i bobl deithio i atyniadau twristiaeth poblogaidd ledled Cymru, ac ymweld â'u hail gartrefi.

Tra bod yr Ynys wedi ymateb i'r achos lleol diweddar, y cyntaf o'i fath yng Nghymru, bu'n rhaid addasu cynlluniau ac adolygu rhai camau penodol a gynlluniwyd, megis ailagor ysgolion yn rhannol o 29 Mehefin. Mae'r perygl o ail don o achosion yn parhau i fod yn risg gwirioneddol. Nid yw gwir effaith llacio mesurau wedi cael eu mesur eto ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, ac a fydd hyn yn cael unrhyw effaith ar bolisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Ni ddylid tanbrisio anferthedd a chymhlethdod y cyfnod adfer. Mae hyd yn oed yn fwy heriol oherwydd yr ansicrwydd a'r risg y gallai nifer yr achosion o coronafeirws gynyddu'n sylweddol eto. Tra bod yr adroddiad hwn yn manylu ar yr ymagwedd gychwynnol o ran y gwaith cynllunio cynnar ar gyfer adfer, mae'r Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar, a rhoi blaenoriaeth i, ymateb i'r argyfwng a llacio'r cyfyngiadau yn ddiogel (yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru).

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi strategaeth ar gyfer adfer, '*Our Plan to Rebuild*' (https://www.gov.uk/government/publications/our-plan-to-rebuild-the-uk-governments-covid-19-recovery-strategy). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi strategaeth hefyd, '*Llacio'r Cyfyngiadau ar ein Cymdeithas a'n Heconomi*' (https://llyw.cymru/llacior-cyfyngiadau-ar-ein-cymdeithas-an-heconomi-cyhoeddi-map-ffordd-cymru). Mae rhai gwahaniaethau, a amlygwyd eisoes, yng nghyflymder yr adfer a'r ymagwedd tuag ato. Mae elfennau o'r ddwy strategaeth yn berthnasol i weithgareddau'r Cyngor, ond deddfwriaeth a chanllawiau Llywodraeth Cymru sy'n llywio'r mwyafrif o wasanaethau.

**Strwythurau a Chynnydd Rhanbarthol**

Y Grŵp Cydlynu Strategol rhanbarthol sydd wedi bod yn gyfrifol am y cyfnod ymateb i'r argyfwng yng Ngogledd Cymru, ac mae wedi cydnabod pwysigrwydd gwaith cynllunio cynnar ar gyfer y cyfnod adfer. Mae'r Prif Weithredwr neu uwch swyddog dynodedig yn cynrychioli'r Cyngor, ynghyd â phob sefydliad sector cyhoeddus cydnabyddedig arall. Heddlu Gogledd Cymru sy'n cadeirio'r Grŵp Cydlynu Strategol. Gyda digwyddiadau argyfwng arferol, mae cynllunio ar gyfer adfer yn digwydd yn union ar ôl y cyfnod o argyfwng. Fodd bynnag, mae maint, yr ansicrwydd parhaus a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng wedi arwain at ddull cyfochrog o weithio, gyda'r ymateb a'r gwaith cynllunio ar gyfer adfer yn digwydd ochr yn ochr ar lefel ranbarthol a lleol.

Sefydlwyd Grŵp Cydlynu Rhanbarthol i weithio ochr yn ochr â'r Grŵp Cydlynu Strategol. Bydd hyn yn sicrhau dull strategol rhanbarthol cwbl gyson a chydlynus o ran cynllunio'r adferiad (gan adlewyrchu'r ymagwedd yn ystod cyfnod yr argyfwng). Arweinir y gwaith hwn gan yr awdurdodau lleol, gan weithio'n agos â Llywodraeth Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, y Bwrdd Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r Prif Weithredwr yn cynrychioli'r Cyngor. Y prif egwyddorion sy'n llywio'r ymagwedd gychwynnol hon yw:

- Dull pwyllog a chymesur mewn perthynas â gwaith thematig
- Gweithio'n hyblyg o fewn strategaeth adfer y Llywodraeth yn hytrach na'i ddilyn yn gaeth
- Gwneud defnydd llawn o'r fframwaith partneriaeth rhanbarthol sy'n bodoli'n barod
- Cydbwyso agwedd ranbarthol a lleol wrth gynllunio a gweithredu
- Osgoi creu peirianwaith biwrocrataidd
- Rhoi grym i arweinwyr rhanbarthol osod cyfeiriad strategol gwleidyddol

At ddibenion statudol, bydd y Grŵp Cydlynu Adferiad yn atebol i'r Fforwm Cydnerthedd Lleol ac yn adrodd i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ac yn cael ei arwain yn strategol gan y Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol i sicrhau trosolwg gwleidyddol.

Mae gwaith cynllunio cynnar ar gyfer adfer gan y Grŵp Cydlynu Rhanbarthol yn canolbwyntio ar dri maes thematig, fydd yn cael eu goruchwylio a'u cydlynu drwy strwythurau rhanbarthol a lleol presennol:

- Grŵp Adfer Iechyd a Gofal yn cael ei oruchwylio gan y Bwrdd Partneriaeth Lleol;
- Adferiad economaidd yn cael ei gydlynu a'i oruchwylio gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd;
- Adferiad cydnerthedd cymunedol yn cael ei gydlynu gan Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus (ym mhob isranbarth).

**Cynnydd a Strwythurau Lleol**

Cafodd nifer fawr o Wasanaethau'r Cyngor eu cynnal yn ystod cyfnod yr argyfwng. Fodd bynnag, cafodd nifer o safleoedd a lleoliadau gwaith eu cau ar y cychwyn. Felly, mae gwaith hyd yma wedi canolbwyntio'n bennaf ar y lleoliadau hyn i sicrhau eu bod yn gallu agor yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae meysydd allweddol yn ystod y cyfnod pontio cychwynnol yn cynnwys:

- Ailagor Canolfan Ailgylchu Penhesgyn
- Ailagor Canolfan Ailgylchu Gwalchmai
- Ailagor Parc Gwledig y Morglawdd
- Ailagor Gwarchodfa Natur Leol Nant y Pandy
- Ailagor llyfrgelloedd (gyda gwasanaeth clicio a chasglu i gychwyn)
- Ailgychwyn cynlluniau cyfalaf
- Nodi sut y gellir cefnogi canol trefi i ailagor yn ddiogel
- Ailagor meysydd parcio a chyfleusterau arfordirol
- Ailagor toiledau cyhoeddus

Argymhellir bod y strwythurau a'r berthynas waith a sefydlwyd gyda Menter Môn a Medrwn Môn, gyda'r gymuned leol yn cyflawni a rhwydweithiau cadarn o wirfoddolwyr, yn cael eu hatgyfnerthu a'u cynnal (lle bo'n bosib) ar gyfer y cyfnod adfer. Byddai hyn yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed (cyn yr argyfwng) mewn rhai wardiau i ddefnyddio'r gymuned i wella gwasanaethau ac asedau drwy ddull cynllunio cymunedol. Bydd y sylfeini a osodwyd o ganlyniad i ddyheadau a chefnogaeth y Cyngor i'r rhaglen 'Cynllunio Lle' hefyd yn berthnasol. Bydd y Cyngor yn dylanwadu ar lefel y gweithgarwch a'r ymyrraeth ynghyd â gallu partneriaid i sicrhau adnoddau ychwanegol o nifer o ffynonellau posib er mwyn cyflawni blaenoriaethau adfer.

Mae pwysigrwydd yr adferiad economaidd i bob sector yn cael ei gydnabod hefyd. Bydd angen i'r Cyngor benderfynu beth / sut y bydd yn darparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol i ganiatáu datblygu economaidd a chreu swyddi. Mae cyfle'n bodoli i'r Cyngor wirioneddol ymgorffori datgarboneiddio a'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn ei ymagwedd wrth symud ymlaen, ac mae angen iddo afael yn y cyfle hwnnw os yw'n dymuno manteisio i'r eithaf ar gefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru ac eraill. Yn barod, mae Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi awgrymu y dylai Cymru geisio cyflawni 'adferiad gwirioneddol wyrdd'. Byddai hyn yn rhoi blaenoriaeth i dwf economaidd cynaliadwy a gallai/dylai gynnwys nifer o'r buddsoddiadau arfaethedig cysylltiedig ag ynni ar yr Ynys.

Pan fydd Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar ei brif ymyraethau i ysgogi a chaniatáu adferiad economaidd, gall y Cyngor sicrhau fod cynlluniau a phrosiectau'n cael eu cyflawni

yn lleol, i wneud y mwyaf o fuddiannau a chanlyniadau cadarnhaol. Cydnabyddir pwysigrwydd rhaglen o brosiectau cyfalaf, wrth wneud y mwyaf fuddiannau lleol drwy ddulliau caffael ac annog preswylwyr ac ymwelwyr i brynu'n lleol.

Ni ellir tanbrisio pwysigrwydd a gwerth y sector twristiaeth a lletygarwch. Mae cyfleoedd yn bodoli, fel rhan o'r 'normal nesaf' i 'ailddyfeisio'r' Ynys fel cyrchfan - ceisio cael pobl i aros yn hirach a gwario mwy; datblygu twristiaeth werdd, bach ei heffaith yn seiliedig ar asedau naturiol; teithio llesol ac isadeiledd gwyrdd newydd; a hyrwyddo twristiaeth mwy 'gwasgaredig', ar draws yr Ynys, i sicrhau y cedwir pellter cymdeithasol yn fwy effeithiol.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ymgysylltu'n effeithiol ac yn ystyrlon a rhannu gwybodaeth â'r sector preifat a sefydliadau partner i nodi'r prif ymyraethau i gynnal cyflogaeth, cefnogi busnesau a'r economi ehangach.

Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i ddiogelu dinasyddion Môn p'un ai ydynt yn byw yn y gymuned neu mewn cartrefi gofal. Mae cadernid o ran staffio yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i gael ei ystyried a'i reoli er mwyn sicrhau parhâd busnes. Mae cynnal asesiadau yn y gymuned, cynllunio gofal a gwella bywydau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ac oedolion yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae'r gwaith hwn yn parhau gyda'n partneriaid yn y trydydd sector. Bydd cyflawni yn lleol a chydlynu rhanbarthol yn hanfodol i alluogi ail-fuddsoddi adnoddau mewn model ataliol sy'n hyrwyddo iechyd da a llesiant.

Bydd dyblu nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol (Ebrill/Mai 2020) y dyfarnwyd 'budd-daliadau di-waith' iddynt yng nghymunedau'r Ynys (nifer sy'n debygol o gynyddu ymhellach ar ôl dod â'r cynllun cadw swyddi i ben), yn cael effaith ar dlodi ac ystod lawn o wasanaethau'r Cyngor. Mae angen cydnabod a deall yr effeithiau hyn a chynllunio ar eu cyfer fel rhan o ymateb corfforaethol systemataidd.

**Strwythurau a Chynnydd Mewnol**

Mae cysondeb ac aliniad â strwythurau cydlynu rhanbarthol yn bwysig, wrth sicrhau hefyd fod cynlluniau cyflawni lleol yn cael eu sefydlu, eu blaenoriaethu a darparu adnoddau ar eu cyfer. Rhaid i'r ymateb lleol ychwanegu gwerth, ac ymateb i anghenion a chyfleoedd lleol cydnabyddedig. Bydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) yn gyfrifol am gynllunio'r adferiad a'i gyflawni. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn goruchwylio gwaith cynllunio'r adferiad a'r camau cyflawni a bydd yn gyfrifol am benderfynu p'un ai i arallgyfeirio neu ddyrannu adnoddau ychwanegol lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol.

Cytunwyd hefyd y bydd yr UDA yn ymgysylltu â'r ddau Fwrdd Rhaglen Corfforaethol ac yn gwneud defnydd llawn ohonynt i ddylanwadau a llywio'r broses o gynllunio'r adferiad. Bydd aelodaeth wleidyddol y ddau Fwrdd yn cael ei ymestyn i gynnwys pedwar arweinydd y grwpiau gwleidyddol gan adlewyrchu arwyddocâd a maint y dasg o'n blaenau.

Bydd angen i'r grwpiau gwleidyddol a'r Pwyllgorau Sgriwtini ystyried y cynlluniau wrth iddynt ailgydio yn eu gwaith. Dim ond amlinellu camau cynnar iawn y cynlluniau adfer y mae'r adroddiad hwn, a sut mae strwythurau'r Cyngor yn alinio ag eraill i gyflawni'r rôl adfer yn effeithiol. Mae angen cyflwyno'r gwaith yn raddol, wrth inni, gyda gobaith, symud trwy'r cyfnod llacio yn ddiogel.

Meysydd thematig cychwynnol lle bydd angen buddsoddi amser ac ymdrech (nid yw'n rhestr hollgynhwysol):

- Darparu gwasanaethau
- Gweithlu
- Rhith-weithio a gweithio o bell
- Adeiladau a lleoliadau gwaith
- Sefydliadol
- Cyllid
- Cymuned
- Economaidd
- Cyrchfan

Bydd pob maes yn y Cyngor yn rhan o'r gwaith hwn – Gwasanaethau, prosesau, ymddygiadau a diwylliant. Bydd angen datblygu cynlluniau gweithredu, fydd yn cael eu llywio gan ddadansoddiad cychwynnol o'r sefyllfa bresennol a'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y dyfodol, gan adlewyrchu ar y gwersi a ddysgwyd hyd yma, a sicrhau aliniad â chanllawiau cenedlaethol a'r fframwaith rhanbarthol.

Ni fydd yn bosib cyflawni popeth ar yr un pryd. Bydd argaeledd adnoddau a chyllid yn holl bwysig, ynghyd â chynllun clir. Felly, argymhellir bod adroddiad mwy manwl yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith wedi i swyddogion y Cyngor gael mwy o amser i baratoi, ymgysylltu a sicrhau barn wleidyddol drwy'r Byrddau Trawsnewid Corfforaethol. Dylai fod yn gyson hefyd â'r broses gydlynu ranbarthol, a chael ei lywio gan eglurhad pellach gan Lywodraeth Cymru am y blaenoriaethau adfer a chefnogaeth ariannol ychwanegol a ddarperir i'w gwneud yn bosib cyflawni hyn yn lleol yn effeithiol.

Cyflwynir oblygiadau ariannol yr argyfwng coronafeirws a rhagolygon wrth symud ymlaen trwy'r cyfnod pontio i'r cyfnod adfer mewn dogfen ar wahân ar raglen y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Gwaith (y dylid eu hystyried gyda'i gilydd). Yn ddibynnol ar flaenoriaethau, capasiti, a chapasiti ariannol, bydd angen nodi gweithgareddau adfer lleol a'u hymgorffori'n effeithiol ym mlaenoriaethau'r Cyngor, y Cynllun Gwella a Chynlluniau Cyflawni Gwasanaeth unigol yn ystod y misoedd nesaf.

## Datblygiad Sefydliadol a Diwylliant

Nid yw effaith lawn yr achos o coronafeirws ar y Cyngor a'r Ynys yn glir. Fel rhan o'r ymateb i'r argyfwng, mae'r Cyngor wedi addasu a newid ei ddulliau er mwyn amddiffyn y gweithlu, ymateb yn effeithiol, parhau i ddarparu gwasanaethau (a chyflwyno gweithgareddau newydd). Rhagwelir y bydd cyfyngiadau mewn lle am beth amser a bydd rhaid ail-ddylunio gwasanaethau a lleoliadau gwaith er mwyn glynu at ofynion ymbellhau cymdeithasol a sicrhau diogelwch pawb. Er enghraifft, bydd cynnull mewn person wrth gadw at ofynion cadw pellter yn her newydd.

Er gwaetha'r heriau hyn, mae yna gyfleoedd hefyd i sicrhau y bydd y 'normal nesaf' yn gwella perfformiad, y gwasanaethau a ddarperir a llesiant gweithwyr. Bydd casglu ac ymgorffori'r dysgu sy'n deillio o'r argyfwng yn bwysig. Cydiwyd mewn cyfleoedd i fabwysiadu rhith-dechnolegau newydd, gan ddod yn fwy cydnerth a chynnal gwasanaethau hanfodol. Mae'n bwysig fod y Cyngor cyfan yn derbyn newidiadau a datblygiadau pellach.

Argymhellir bod y Cyngor yn datblygu a gweithredu cynllun datblygu sefydliadol (yn seiliedig ar fyfyrio a dysgu ystyrlon) fel rhan o'i ymdrechion adfer. Mae parhad busnes, perfformiad, ymddygiadau a lles y gweithlu oll yn agweddau y mae angen eu hystyried a'u haddasu i adlewyrchu'r amgylchedd yn dilyn yr argyfwng. Meysydd cychwynnol a nodwyd lle y gallai'r 'normal nesaf' gynnig buddiannau a gwelliannau yw (<u>nid yw'n rhestr hollgynhwysol</u>):

**Ymgysylltu digidol a chynhwysiant**
Mae sianelau digidol wedi dod yn gynyddol bwysig yn ystod y cyfnod clo gan fod y Cyngor wedi darparu mwy o wasanaethau ar-lein. Gyda'r seilwaith, cefnogaeth a'r sgiliau angenrheidiol, gallai trigolion gael mynediad at wasanaethau digidol, parhau i fod yn wybodus a bod yn rhan o gymunedau lleol a ailddiffiniwyd.

**Ymgysylltu democrataidd ac amrywiaeth**
Mae nifer fawr o Bwyllgorau a chyfarfodydd mewnol naill ai wedi esblygu i fod yn rhith-gyfarfodydd neu yn y broses o wneud hynny. Bydd angen i'r Cyngor benderfynu ac yna cynllunio i sicrhau fod ymgysylltu rhithiol ac wyneb yn wyneb yn cyfuno'n effeithiol, gan weithio'n ddiogel ac yn effeithiol.

**Dyluniad, diwylliant ac ymddygiadau sefydliadol**
Mae'r Cyngor wedi dangos ei allu i addasu ac ymateb i risgiau, heriau a gofynion newydd. Mae angen manteisio'n llawn ar y parodrwydd hwn, a nodi sut i gynllunio gwelliannau parhaol mewn gwasanaethau a phrosesau a'u rhoi ar waith; gwreiddio manteision rhith-weithio a gweithio o bell; datblygu ymhellach ein gallu i weithio'n ddigidol; bod yn hyblyg; wrth ddeall pa arferion newydd sydd wedi bod yn llwyddiannus, a pham, a'u troi yn 'normal newydd'.

**Galluogi Cymunedau**
Mae'r trefniadau cydweithio sydd wedi eu hen sefydlu â Menter Môn, Medrwn Môn a'r rhwydwaith o wirfoddolwyr wedi gwasanaethu'r gymuned leol yn dda. Mae'n bwysig cynnal lefel yr ymateb cymunedol, gyda chydlynu effeithiol ac ymgysylltiad rhagweithiol â phobl agored i niwed.

**Gweithleoedd**
Wrth iddynt gychwyn ailagor, ailasesu beth ddylai a beth ddylai ddim parhau fel busnes fel arfer drwy gytuno ar y cyfuniad cywir o weithio o bell a phresenoldeb mewn adeilad neu leoliad gwaith dynodedig. Bydd hyblygrwydd yn hanfodol, rhwng rolau a gwasanaethau wrth sefydlu cyfuniad newydd o rith-weithio a gweithio wyneb yn wyneb. Bydd angen hysbysu gweithwyr a'r Undebau er mwyn iddynt fod yn barod am y newidiadau a ragwelir.

Sicrhau diogelwch a llesiant y gweithlu fydd yn gyrru ac yn llywio adferiad graddol gwasanaethau'r Cyngor, ynghyd ag ystyriaethau ffisegol megis ailagor gweithleoedd. Rhaid croesawu'r cyfle hefyd i ddysgu ac i ddatblygu ymhellach diwylliant, ymddygiadau, ffyrdd o weithio, sgiliau a dulliau, llywodraethiant a phenderfyniadau'r sefydliad. Mae hwn yn gyfle hefyd i sicrhau y cyflawnir yr ymrwymiad i fod yn Gyngor carbon sero erbyn 2030. Mae angen amser ac ymrwymiad i gynllunio'n drwyadl ar gyfer dyfodol gwahanol, gan lunio gweledigaeth o'r hyn y gall y sefydliad fod a chreu strategaeth/cynllun gweithredu i gyflawni hynny.

**ARGYMHELLION**

**Cymeradwyo ymagwedd y Cyngor o ran gwaith cynllunio cynnar ar gyfer adfer gan flaenoriaethu a chanolbwyntio ar gyflenwi'n lleol a chyflawni canlyniadau cadarnhaol.**

| **B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| **Cyflwyno adroddiad yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 15 Mehefin 2020.** |

| **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| **Materion gweithredol yn sgil yr argyfwng.** |

V1.2 GM10.9.19

| D – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson a’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Yndi |

| DD – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol |

| E – Effaith ar Genedlaethau’r Dyfodol (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys | Mae effaith yr argyfwng yn eang ar Ynys Môn/ effaith uniongyrchol ar wasanaethau/rhaglenni gwaith y Cyngor a pharhad busnes. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol. Os felly, sut:- | Bydd angen blaenoriaethu rhaglenni gwaith yn ystod y cyfnod adferiad/adolygu cyllido. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cyd-weithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy- | Strwythurau yn eu lle yn rhanbarthol/is ranbarthol i reoli themâu adferiad mewn dull cydweithredol. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae’i rhan yn drafftio’r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:- | |
| 5 | Nodwch yr effeithiau mae’r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg | Wrth gynnal gwasanaethau yn ystod cyfnod adferiad, mae sicrhau bod gan bawb fynediad i wasanaethau yn allweddol. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Rheoli (UDRh) (gorfodol) | Wedi’u cynnwys yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |

V1.2 GM10.9.19

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)** | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| **Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith 15 Mehefin 2020 – Diweddariad o ymateb y Cyngor hyd yma i'r argyfwng COVID -19.** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **13 GORFFENNAF 2020** |
| **Pwnc / Testun:** | **EFFAITH ARIANNOL PANDEMIG COVID-19** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **MARC JONES**<br>**01248 752601**<br>**rmjfi@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **D/B** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

- Nodi cynnwys yr adroddiad

  Mae'r adroddiad yn nodi'r effaith ariannol a amcangyfrifwyd ar gyllid y Cyngor Sir yn 2020/21 ac yn ystyried y goblygiadau yn y tymor hir ar sefyllfa ariannol y Cyngor. Mae'r pandemig presennol wedi creu lefel sylweddol o ansicrwydd yng nghyllideb 2020/21 a hefyd ar gyfer y cyllid i lywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'n bwysig bod Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn ymwybodol o'r materion allweddol cyn cytuno ar y strategaeth ariannol ar gyfer symud ymlaen.

  Dylid nodi bod yr adroddiad yn seiliedig ar nifer o dybiaethau ac amcangyfrifon ac y gallai'r canlyniad terfynol newid o'r asesiad effaith cychwynnol hwn..

  Bydd yr adroddiad hwn yn bwydo i mewn i Gynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2020 ac yn nodi'r strategaeth ariannol ar gyfer cyllideb refeniw 2021/22.

  Bydd y sefyllfa ariannol hefyd yn llywio ac yn dylanwadu ar y gweithgareddau a'r ffordd y bydd adferiad y Cyngor yn cael ei gynllunio.

**B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

D/B

**C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi goblygiadau ariannol pandemig Covid-19;
- Mae monitro'r gyllideb yn un o swyddogaethau dynodedig y Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| DD – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)** | Mae’r adroddiad wedi'i ystyried gan yr UDA ac mae'r sylwadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | D/B – dyma adroddiad y Swyddog Adran 151 |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)** | Roedd y Swyddog Monitro yng nghyfarfod yr UDA lle trafodwyd yr adroddiad drafft |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| E – Effaith ar ein Cenedlaethau’r Dyfodol (os yw’n berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys** | |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau/dibyniaethau'r awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut:-** | |
| **3** | **A ydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i wneud y penderfyniad hwn, os felly, a fyddech cystal â rhoi gwybod pwy:** | |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | |
| **5** | **Amlinellwch pa effaith a gaiff y penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldebau a'r iaith Gymraeg** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A – Adroddiad Manwl ar Effaith Ariannol Pandemig Covid-19

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):**

- Cyllideb Refeniw 2020/21, fel yr argymhellwyd gan y Cyngor Sir ar 10 Mawrth 2020;
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2020/21 – 2022/23 – Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith 16 Medi 2019.

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Mae pandemig presennol Covid-19 wedi arwain at gwtogi neu gau gwasanaethau'r Cyngor, wedi cynyddu costau yn y tymor byr wrth ddelio â'r pandemig, wedi lleihau'n sylweddol ffrwd incwm masnachol y Cyngor, bydd yn cynyddu nifer y trethdalwyr yn Ynys Môn y bydd angen cymorth arnynt i dalu’r Dreth Gyngor drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a bydd yn cynyddu lefelau Dreth Gyngor nas talwyd a fydd yn effeithio ar lif arian ac incwm refeniw y Cyngor.

**1.2.** Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, bydd angen i gymdeithas newid y ffordd yr ydym yn byw ein bywydau bob dydd a bydd hyn, yn ei dro, yn effeithio ar sut mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau yn y dyfodol, a allai gynyddu costau h.y. i gyflawni'r newid a darparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol, ond hefyd ar yr incwm y gall y Cyngor ei gynhyrchu gan rai gwasanaethau.

**1.3.** Bydd lefel y cymorth ariannol y bu'n rhaid i Lywodraethau Cymru a'r DU ei ymrwymo i liniaru effaith y cyfyngiadau hefyd yn cael effaith ganlyniadol ar lefelau gwariant cyhoeddus ledled y DU yn y dyfodol, a bydd hyn yn arwain at newidiadau yn lefel y cyllid y bydd y Cyngor yn ei gael gan Lywodraeth Cymru dros y blynyddoedd nesaf.

**1.4.** Mae'r adroddiad canlynol yn mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn ac yn asesu'r effaith ariannol. Mae'n seiliedig ar nifer o dybiaethau ac amcangyfrifon, sy'n seiliedig ar y wybodaeth oedd ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad. Mae'r sefyllfa'n gyfnewidiol iawn a bydd yr effaith ariannol yn newid wrth i'r sefyllfa ddod yn gliriach.

## 2. PARATOI AR GYFER Y PANDEMIG

**2.1.** Mae risg o bandemig byd-eang wedi bod ar gofrestr risg y Cyngor a dyma un o'r ystyriaethau dros yr angen i'r Cyngor gynnal cronfeydd wrth gefn ariannol digonol. Gosododd y Cyngor darged y dylai lefel y cronfeydd wrth gefn fod yn o leiaf 5% o gyllideb refeniw net y Cyngor. Y gyllideb refeniw net ar gyfer 2020/21 yw £142.14m, a fyddai'n gofyn am lefel o £7.1m yn y gronfa gyffredinol wrth gefn. Mae'r alldro ariannol gwell nag a ragwelwyd ar gyfer 2019/20 a’r ffaith bod rhai cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd wedi’u dychwelyd i'r balansau cyffredinol wedi arwain at godi lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol ar 31 Mawrth 2020 i £7.06m.

**2.2.** Ychydig cyn y cyfyngiadau, roedd gan y Cyngor tua £10m o arian mewn gwahanol gyfrifon banc gyda £11m wedi’i fuddsoddi ar sail tymor byr gydag awdurdodau lleol eraill. Ar 18 Mawrth 2020, benthycodd y Cyngor £10m yn ychwanegol, oedd yn golygu bod dros £20m o arian ar gael. Roedd yr arian hwn ar gael i dalu am unrhyw wariant annisgwyl a allai fod wedi codi yn ystod y cyfyngiadau. Rhoddwyd cyfarwyddyd i staff gadw'r arian sydd ar gael mewn cyfrifon y gellid cael mynediad rhwydd iddynt ac, wrth i fuddsoddiadau'r awdurdodau lleol ddychwelyd, byddai'r cronfeydd hefyd yn cael eu cadw yng nghyfrifon banc y Cyngor. Hefyd, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru Grant Cynnal Refeniw yn gynt na'r bwriad gwreiddiol a gwnaed taliadau ymlaen llaw i gyllido cost y grantiau busnes a'r rhyddhad trethi busnes ychwanegol. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi sicrhau bod tua £50m o arian ar gael yn ei gyfrifon banc pe bai ei angen.

**2.3.** Mae’r Dreth Gyngor yn ffynhonnell refeniw sylweddol i'r Cyngor, gyda chyfanswm debyd o £52.9m (gan gynnwys praeseptau) a £46.9m yn gorfod cael eu casglu gan drethdalwyr (y gweddill yn cael ei gyllido o Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor). Roedd y ffaith bod y Dreth Gyngor 2020/21 yn hwyr yn cael ei osod yn golygu nad oedd biliau’r Dreth Gyngor 2020/21 wedi’u hanfon pan ddechreuodd y cyfyngiadau. Er mwyn sicrhau y gallai'r Cyngor barhau i gasglu’r Dreth Gyngor, penderfynwyd anfon y biliau allan. Gwnaed y penderfyniad yma cyn i Lywodraeth Cymru benderfynu talu’r Grant Cynnal Refeniw i gynghorau yn gynt na bwriadwyd. Mae hyn wedi golygu bod incwm y Dreth Gyngor wedi parhau i lifo i mewn gan y rheini a allai dalu (trethdalwyr sy'n talu'n llawn ar ôl derbyn y bil a'r rhai sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol). Mae'r penderfyniad hwn wedi helpu i sicrhau bod llif arian y Cyngor mewn sefyllfa iach ac y lliniarwyd y risg gychwynnol y byddai'r Cyngor yn rhedeg allan o arian yn ystod y cyfyngiadau.

## 3. GWARIANT TYMOR BYR I DDELIO Â'R PANDEMIG

**3.1.** Yn ystod y 3 mis o gyfyngiadau, mae'r Cyngor wedi gorfod wynebu gwariant ychwanegol wrth ddelio â'r pandemig. Bu costau ychwanegol dyledus ar gyfer y canlynol:-

- costau TG sydd wedi galluogi'r rhan fwyaf o staff y Cyngor i weithio gartref;
- wrth roi cymorth i'r rhai yn y gymuned sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan y cyfyngiadau e.e. y rhai sy'n gwarchod eu hunain;
- wrth wneud taliadau/darparu parseli bwyd i deuluoedd y mae eu plant yn cael prydau ysgol am ddim;
- prynu PPE ychwanegol ar gyfer staff sy'n parhau i weithio yn y gymuned e.e. staff gofal cartref a staff gofal preswyl;
- i letya pobl a oedd yn ddigartref;
- parhau i wneud taliadau i gontractwyr y Cyngor nad oedd yn ofynnol iddynt ddarparu gwasanaeth yn ystod y cyfyngiadau. Sicrhaodd y taliadau hyn fod y contractwyr yn dal i fasnachu pan ddaeth y cyfyngiadau i ben. Gwnaed y taliadau hyn yn unol â'r Nodyn Polisi Caffael (PPN 02/20) a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet;
- i ddarparu taliadau ychwanegol i gartrefi preswyl a nyrsio preifat i liniaru'r costau ychwanegol a wynebir gan y cartrefi hyn wrth ddelio â'r pandemig ac i ddarparu taliadau ychwanegol i gartrefi na allent dderbyn cleientiaid newydd oherwydd bod cleient wedi cael prawf cadarnhaol yn y cartref.

**3.2.** Mae mwyafrif helaeth y costau hyn wedi'u hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi sicrhau bod cyfanswm o £120m ar gael i gynghorau yng Nghymru ar gyfer talu'r costau ychwanegol hyn. Hyd yma, mae'r Cyngor wedi hawlio £858k ar gyfer costau ym mis Mawrth, Ebrill a Mai. Bydd cais pellach am Fehefin yn cael ei gyflwyno ym mis Gorffennaf, ac mae hwn yn debygol o fod yn fwy na'r swm o £526k a hawliwyd am fis Mai.

## 4. COLLI INCWM O FFIOEDD A THALIADAU

**4.1.** Mae'r Cyngor yn cynhyrchu dros £5m mewn incwm yn flynyddol o'r ffioedd a godir am y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r cyfyngiadau wedi arwain at dynnu rhai gwasanaethau yn ôl ac, o ganlyniad, collwyd yr incwm a gynhyrchir fel arfer. Y gwasanaethau yr effeithir arnynt yn bennaf yw Canolfannau Hamdden, Prydau Ysgol, Meysydd Parcio, Oriel Ynys Môn, Clybiau Gofal Ysgolion a Llyfrgelloedd.

**4.2.** Hefyd, mae'n bosibl y bydd rhai gwasanaethau nad ydynt wedi bod yn gweithredu wedi wynebu sefyllfa lle gohiriwyd eu hincwm, er y byddant o bosibl yn derbyn yr incwm pan ddaw'r cyfyngiadau i ben. Mae'r mathau o wasanaethau yn cynnwys Cynllunio, Rheoli Adeiladu, Cofrestryddion, Ailgylchu a Chasgliad Gwastraff Swmpus, Pridiannau Tir a Gwaith Stryd Priffyrdd.

**4.3.** Er mwyn helpu busnesau lleol, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith roi un mis am ddim i bob un o denantiaid unedau diwydiannol ac eiddo amrywiol ac i roi tri mis o rent am ddim i bob angorfa.

**4.4.** Mae'n anodd amcangyfrif yn gywir faint o incwm a gollwyd gan ei fod yn dibynnu ar nifer y bobl a fyddai wedi defnyddio ein gwasanaethau. Hefyd mae ffactor tymhorol i'w ystyried ond, yn seiliedig ar ffigurau 2019/20, amcangyfrifir y gallai'r Cyngor fod wedi colli incwm, ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill i fis Mehefin, fel y dangosir yn Nhabl 1 isod:-

**Tabl 1**

**Incwm Posibl a Gollwyd Ebrill 2020 – Mehefin 2020**

| | Ebrill 2020 £'000 | Mai 2020 £'000 | Mehefin 2020 £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Incwm a Gollwyd yn Barhaol** | | | | |
| Canolfannau Hamdden | 125 | 125 | 125 | 375 |
| Meysydd Parcio | 63 | 55 | 42 | 160 |
| Prydau Ysgol | 60 | 52 | 69 | 181 |
| Clybiau Gofal Ysgolion | 6 | 6 | 8 | 20 |
| Rhent Uned Ddiwydiannol ac Eiddo Amrywiol | 39 | 5 | 5 | 49 |
| Ffioedd Angori | 8 | 8 | 8 | 24 |
| Ffioedd Coftrestru a Lansio Badau Dŵr Personol | 6 | 6 | 6 | 18 |
| Oriel Ynys Môn | 23 | 24 | 24 | 71 |
| Canolfan Byron | 7 | 7 | 7 | 21 |
| Cartrefi Gofal Preswyl | 2 | 8 | 9 | 19 |
| Amrywiol | 3 | 3 | 6 | 12 |
| **Cyfanswm yr Incwm a Gollwyd yn Barhaol** | **342** | **299** | **309** | **950** |
| | | | | |
| **Incwm Posibl a Ohiriwyd** | | | | |
| Gwaith Stryd Priffyrdd | 3 | 17 | 62 | 82 |
| Pridiannau Tir | 4 | 2 | 7 | 13 |
| Ffioedd Cynllunio | 15 | 15 | 15 | 45 |
| Ffioedd Rheoli Adeiladu | 12 | 12 | 12 | 36 |
| Cofrestryddion | 7 | 9 | 11 | 27 |
| Ailgylchu | 0 | 21 | 45 | 66 |
| Casgliad Gwastraff Swmpus | 5 | 4 | 2 | 11 |
| **Cyfanswm yr Incwm Posibl a Ohiriwyd** | **46** | **80** | **154** | **280** |
| | | | | |
| **CYFANSWM YR INCWM POSIBL A GOLLWYD** | **388** | **379** | **463** | **1,230** |

**4.5.** Wrth i'r cyfyngiadau ddechrau llacio, bydd yn rhaid i'r Cyngor gyflwyno mesurau i gadw pellter cymdeithasol a bydd hyn yn effeithio ar allu pob gwasanaeth i gynhyrchu'r lefelau incwm a welwyd yn 2019/20. Hefyd, bydd yr economi wedi dioddef yn sylweddol. Bydd hyn yn effeithio ar allu unigolion i wario ar wasanaethau nad ydynt yn hanfodol (canolfannau hamdden, meysydd parcio, Oriel Ynys Môn), efallai na fydd rhai busnesau yn masnachu a bydd hynny'n effeithio ar renti a dderbynnir a hefyd i fuddsoddi, a fydd yn ei dro'n effeithio ar ffioedd cynllunio, ffioedd rheoli adeiladu a phridiannau tir.

**4.6.** Er mwyn ceisio amcangyfrif yr incwm posibl a gollwyd hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol, gwnaed tybiaethau ynglŷn â chapasiti'r prif wasanaethau cynhyrchu incwm rhwng nawr a diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r tybiaethau hyn wedi'u nodi yn Atodiad B.

**4.7.** Drwy ddefnyddio'r wybodaeth am yr incwm a gasglwyd yn ystod 2019/20 a'r tybiaethau a nodir yn Atodiad B, mae'n bosibl amcangyfrif yr incwm posibl a gollwyd hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nodir yr amcangyfrif hwn yn Nhabl 2 isod:-

**Tabl 2**

**Incwm Posibl a Gollwyd Ebrill 2020 – Mawrth 2021**

| | Ebrill 2020 £'000 | Mai 2020 £'000 | Meh 2020 £'000 | Gorff 2020 £'000 | Awst 2020 £'000 | Medi 2020 £'000 | Hyd 2020 £'000 | Tach 2020 £'000 | Rhag 2020 £'000 | Ion 2021 £'000 | Chwe 2021 £'000 | Maw 2021 £'000 | Cyfan swm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm a Gollwyd yn Barhaol** | | | | | | | | | | | | | |
| Canolfannau Hamdden | 125 | 125 | 125 | 142 | 145 | 109 | 106 | 107 | 96 | 74 | 84 | 57 | 1,295 |
| Meysydd Parcio | 63 | 55 | 42 | 49 | 68 | 43 | 18 | 15 | 12 | 5 | 6 | 9 | 385 |
| Prydau Ysgol | 60 | 52 | 69 | 60 | 0 | 89 | 57 | 47 | 31 | 22 | 0 | 0 | 487 |
| Clybiau Gofal Ysgolion | 6 | 6 | 8 | 6 | 0 | 8 | 5 | 4 | 3 | 2 | 0 | 0 | 48 |
| Rhent Uned Ddiwydiannol ac Eiddo Amrywiol | 39 | 5 | 5 | 5 | 10 | 10 | 10 | 5 | 5 | 3 | 3 | 2 | 102 |
| Ffioedd Angori | 8 | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 24 |
| Ffioedd Cofrestru a Lansio Badau Dŵr Personol | 6 | 6 | 6 | 6 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 28 |
| Oriel Ynys Môn | 23 | 24 | 24 | 24 | 27 | 25 | 4 | 17 | 14 | 19 | 6 | 0 | 207 |
| Canolfan Byron | 7 | 7 | 7 | 15 | 11 | 5 | 23 | 8 | 10 | 3 | 0 | 0 | 96 |
| Cartrefi Gofal Preswyl | 2 | 8 | 9 | 15 | 9 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 46 |
| Amrywiol | 3 | 3 | 6 | 4 | 1 | 1 | 3 | 28 | 7 | 0 | 1 | 43 | 100 |
| **Cyfanswm yr Incwm a Gollwyd yn Barhaol** | **342** | **299** | **309** | **326** | **273** | **295** | **226** | **231** | **178** | **128** | **100** | **111** | **2,818** |
| | | | | | | | | | | | | | |
| **Incwm Posibl a Ohiriwyd** | | | | | | | | | | | | | |
| Gwaith Stryd Priffyrdd | 3 | 17 | 62 | 7 | 31 | 22 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 142 |
| Pridiannau Tir | 4 | 2 | 7 | 8 | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 33 |
| Ffioedd Cynllunio | 15 | 15 | 15 | 16 | 16 | 16 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 93 |
| Ffioedd Rheoli Adeiladu | 12 | 12 | 12 | 8 | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 60 |
| Cofrestryddion | 7 | 9 | 11 | 10 | 8 | 10 | 4 | 3 | 3 | 2 | 2 | 2 | 71 |
| Ailgylchu | 0 | 21 | 45 | 18 | 21 | 21 | 0 | 14 | 6 | 5 | 8 | 12 | 171 |
| Casgliad Gwastraff Swmpus | 5 | 4 | 2 | 5 | 4 | 4 | 3 | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | 38 |
| **Cyfanswm yr Incwm Posib a Ohiriwyd** | **46** | **80** | **154** | **72** | **94** | **87** | **7** | **19** | **11** | **10** | **12** | **16** | **608** |
| **CYFANSWM YR INCWM POSIBL A GOLLWYD** | **388** | **379** | **463** | **398** | **367** | **382** | **233** | **250** | **189** | **138** | **112** | **127** | **3,426** |

**4.8.** Er bod lefel sylweddol o incwm wedi'i golli, yn ôl yr amcangyfrif, mae'r Cyngor yn cynhyrchu lefelau sylweddol is o incwm o ffioedd a thaliadau o gymharu â chynghorau mwy eraill yng Nghymru, sy'n cynhyrchu symiau sylweddol uwch drwy ffioedd meysydd parcio, canolfannau hamdden, theatrau, atyniadau twristaidd a rhenti eiddo. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y bydd colli incwm yn cael effaith sylweddol ar hyfywedd ariannol cynghorau. Cyhoeddwyd y byddai £78m o gymorth ychwanegol ar gael a nodwyd y bydd tua dwy ran o dair o'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio i ddigolledu cynghorau am yr incwm a gollwyd. Nid yw wedi'i benderfynu eto sut y caiff yr incwm hwn ei ddosbarthu, ond mae'n debygol y caiff ei ddyrannu ar sail yr incwm gwirioneddol a gollwyd yn hytrach nag ar sail fformiwla. Pa bynnag sail a ddefnyddir, mae'n annhebygol o ddigolledu'r Cyngor am yr holl incwm a gollwyd.

## 5. ARBEDION GWARIANT YN YSTOD Y CYFYNGIADAU

**5.1.** Wrth i wasanaethau gael eu cau, arbedwyd rhywfaint o wariant oherwydd nad oedd adeiladau ar agor, gan arbed costau ynni a chostau eraill yn ymwneud ag adeiladau, nid oedd yn ofynnol i weithredwyr bysiau ysgol ac arlwywyr ysgolion ddarparu gwasanaethau, roedd staff yn teithio llai yn fflyd y Cyngor ac yn eu ceir eu hunain ac roedd costau gweinyddu yn is gan fod staff yn gweithio o gartref.

**5.2.** Mae'n anodd amcangyfrif yr arbedion oherwydd bod unrhyw wariant a dalwyd ym mis Ebrill 2020 fel arfer yn ymwneud â gwaith a wnaed ym mis Mawrth 2020 ac, felly, mae'r costau'n cael eu cofnodi yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae hyn yn golygu ei bod yn anos nodi'r arbedion a gafwyd a gallai arwain at danddatgan ffigurau mis Ebrill, ond bydd ffigyrau mis Mai a mis Mehefin yn gwneud iawn am y tanamcangyfrif ar gyfer mis Ebrill. Dangosir amcangyfrif o'r arbedion yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3**

**Amcangyfrif o Arbedion Gwariant Refeniw ar gyfer Ebrill 2020 – Mehefin 2020**

| | **Ebrill 2020 £'000** | **Mai 2020 £'000** | **Mehefin 2020 £'000** | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|---|
| **Pennawd Gwariant** | | | | |
| Canolfannau Hamdden | 0 | 45 | 40 | 85 |
| Oriel Ynys Môn | 1 | 6 | 10 | 17 |
| Cludiant Ysgolion | 29 | 36 | 53 | 118 |
| Arlwyo Ysgolion | 14 | 17 | 25 | 56 |
| Costau Gweinyddol | 0 | 14 | 8 | 22 |
| Lwfansau Ceir Staff a Fflyd | 0 | 30 | 42 | 72 |
| **Cyfanswm Amcangyfrif o'r Arbedion Gwariant** | **44** | **148** | **178** | **370** |

**5.3.** Bydd yr arbedion yn lleihau'n gyflym unwaith y bydd y cyfyngiadau yn llacio ac adeiladau'n cael eu hailddefnyddio, hyd yn oed ar lai o gapasiti, h.y. mae angen eu goleuo, eu cynhesu a'u glanhau o hyd. Gydag ysgolion o bosib yn ailagor ddechrau mis Gorffennaf, bydd yr arbedion o gludiant ysgol ac arlwyo yn cael eu colli, a bydd hynny'n golygu arbedion yn unig tra bydd y canolfannau hamdden ac Oriel Ynys Môn ar gau ynghyd â'r arbedion parhaus o gostau teithio is. Amcangyfrifir mai'r arbedion cyfunol ar draws pob un o'r penawdau yn Nhabl 3 fydd £71k ym mis Gorffennaf, £66k ym mis Awst, £7k ym mis Medi ac yna ychydig iawn wedyn, ar yr amod y tybir y bydd holl wasanaethau'r Cyngor yn gweithredu ar ryw gapasiti o Hydref 2020 ymlaen.

## 6. COSTAU CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR

**6.1** Cyllideb y Cyngor i dalu am gost Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2020/21 yw £6.016m. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys £5.037m yn Asesiad o Wariant Safonol y Cyngor sy'n bwydo drwodd i effeithio ar Grant Cynnal Refeniw y Cyngor.

**6.2** Wrth i'r sefyllfa economaidd waethygu a diweithdra gynyddu, yna bydd nifer y rhai sy'n gwneud cais am Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cynyddu. Hyd at ddiwedd mis Mai, mae'r amcangyfrif o'r gost wedi cynyddu £148k i £6.19m a disgwylir y bydd y ffigwr hwn yn parhau i godi pan ddaw'r cynllun ffyrlo i ben a phan fydd busnesau lleol yn diswyddo staff am na allant barhau i gyllido'r un lefel o staffio.

**6.3** Bu cynnydd o 985 yn nifer y ceisiadau am Gredyd Cynhwysol ar gyfer Ynys Môn ym mis Ebrill 2020, ond nid yw hyn wedi cyfateb i gynnydd tebyg yn nifer y rhai sydd wedi hawlio Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CGDG) h.y. dim ond cynnydd o 87 o hawliadau CGDG a welwyd rhwng 1 Ebrill 2020 a 22 Mai 2020 a chynnydd pellach o 75 rhwng 22 Mai 2020 a 16 Mehefin 2020. Mae'n amlwg, ar hyn o bryd, mai'r grwpiau oedran iau yr effeithiwyd arnynt gan y cyfyngiadau ac sydd wedi hawlio Credyd Cynhwysol ac nid ydynt yn tueddu i fod yn bobl sy'n gorfod talu'r Dreth Gyngor.

**6.4** Mae'n anodd amcangyfrif sut y bydd y llwyth achosion yn cynyddu dros y misoedd nesaf, ond byddai amcangyfrif ceidwadol o 10% yn cynyddu cost y cynllun gan £600k. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt eto rhwng y cynghorau, CLlLC a Llywodraeth Cymru ynghylch a fydd Llywodraeth Cymru yn cyllido'r holl gostau ychwanegol yma, neu ran ohonynt.

## 7 CASGLU'R DRETH GYNGOR

**7.1** Cyfanswm y debyd ar gyfer Y Dreth Gyngor ar gyfer 100% o'r sylfaen drethi yw £42.1m ond, yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn casglu'r praeseptau ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru a Chynghorau Cymuned ac mae hyn yn dod i £10.9m yn ychwanegol, gan wneud cyfanswm i'w gasglu o £53.0m. Bydd y swm hwn yn gostwng £6.1m drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan roi swm net i'w gasglu o £46.9m.

**7.2** Mae'r sylfaen drethi'n newid dros amser wrth i eithriadau gael eu dyfarnu neu eu terfynu ac wrth i eiddo newydd gael eu cwblhau. Hefyd, ni fydd y Cyngor yn casglu'r holl Dreth Gyngor sy'n ddyledus ac fel arfer cesglir tua 99.3% o'r cyfanswm debyd (ar ôl tua 3 blynedd fel arfer). Caiff yr addasiadau a'r colledion hyn eu hystyried yn y gyllideb drwy'r sylfaen drethi sydd wedi'i gosod ar 98.5% ar gyfer y Dreth Gyngor safonol a 80% ar gyfer y premiwm.

**7.3** Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi penderfynu peidio â chodi'r premiwm cartrefi gwag am y 6 mis cyntaf a hefyd i ymestyn yr eithriadau ar gyfer eiddo gwag, a fydd yn lleihau'r debyd gan amcangyfrif o £191k.

**7.4** Yn ogystal â'r uchod, bydd y sefyllfa economaidd yn ei gwneud yn anos casglu'r Dreth Gyngor. Eisoes gohiriwyd taliad cyntaf trethdalwyr o fis Ebrill i fis Mehefin ac mae hyn, ynghyd â'r ffaith nad oes unrhyw gamau adfer wedi dechrau, eisoes wedi golygu bod yr incwm a gasglwyd hyd yma 1.5% yn is ym mis Mai 2020 o'i gymharu â mis Mai 2019.

**7.5** Mae pob 1% islaw'r gyfradd gasglu arferol yn lleihau'r incwm tua £400k.

## 8 PWYSAU AR GYLLIDEBAU GWASANAETHAU

**8.1** Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/20, parhaodd dau brif wasanaeth i wynebu pwysau cyllidebol, Gwasanaethau Oedolion a orwariodd £1.085m a Gwasanaethau Plant a orwariodd £0.156m. Roedd y pwysau ar Wasanaethau Oedolion yn hysbys pan osodwyd y gyllideb a chafodd swm ychwanegol o £1.3m ei gynnwys yn y gyllideb i dalu am y diffyg hwn.

**8.2** Cyllidwyd tua £300k o wariant ar Fyw â Chymorth o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn 2019/20 ac roedd y gwasanaeth yn y broses o ail-dendro'r gwasanaeth er mwyn lleihau costau'r gwasanaeth a sicrhau ei fod yn unol â'r gyllideb graidd. Mae'r pandemig wedi arwain at ohirio'r broses dendro ac, felly, ni cheir unrhyw arbedion.

**8.3** Y bobl fwyaf oedrannus o'r boblogaeth sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan y feirws, gyda nifer uchel o farwolaethau yn y grŵp hwn. Nid yw'n eglur ar hyn o bryd sut y bydd y pandemig yn effeithio ar nifer y cleientiaid yn y dyfodol a'r gwasanaeth y byddant yn gofyn amdano/ei angen. Mae'n debygol o gael effaith ar gostau yn y dyfodol ond mae'n aneglur ar hyn o bryd beth fydd yr effaith. Yn seiliedig ar y ddarpariaeth gwasanaeth bresennol a'r llwyth achosion, mae'n debygol y bydd y gyllideb gwasanaethau ar gyfer yr henoed yn gorwario tua £250k, er y bydd hyn yn cael ei wrthbwyso gan £100k, yn ôl yr amcangyfrif, a arbedir o gostau staffio.

**8.4** Ceir pwysau ychwanegol ar y gyllideb hefyd yn ystod misoedd y gaeaf ac mae'r costau'n dibynnu ar ddifrifoldeb misoedd y gaeaf. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu grant i helpu i ddelio â'r costau ychwanegol hyn, tua £300k bob blwyddyn. O gofio bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi darparu symiau sylweddol o gyllid ychwanegol i ddelio â'r pandemig, nid yw'n sicr a fydd y cyllid ar gael eto i ddarparu'r grant ychwanegol hwn yn 2020/21.

**8.5** Yn seiliedig ar y llwyth achosion presennol, amcangyfrifir y bydd cyllideb Gwasanaethau Oedolion yn gorwario eto tua £150k (gan dybio bod £250k yn cael ei ryddhau fel cronfa wrth gefn a dim cyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru). Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, mae'n debygol y bydd y galw am rai gwasanaethau e.e. gwasanaethau iechyd meddwl yn cynyddu a bydd hyn yn ychwanegu at y pwysau ar y gyllideb.

**8.6** Er bod Gwasanaethau Plant wedi gorwario yn 2019/20, mae'r rhagamcaniad ar gyfer 2020/21 ychydig yn fwy calonogol ac, er bod niferoedd yr achosion yn codi unwaith eto, mae'r nifer gynyddol o rieni maeth a gyflogir gan y Cyngor ac agor y cartrefi grŵp bach (Cartrefi Clyd) yn lleihau'r angen am leoliadau costus allsirol. Fodd bynnag, unwaith eto ni wyddys beth fydd effaith y cyfyngiadau ac mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn gweld cynnydd sylweddol yn nifer y plant a theuluoedd sydd angen cymorth gan y Gwasanaeth.

**8.7** Wrth osod y gyllideb, roedd y Cyngor yn caniatáu codiad cyflog o 2% i'r holl staff nad oeddent yn addysgu, ond roedd ganddo £235k fel cronfa wrth gefn rhag ofn y byddai'r dyfarniad cyflog y cytunwyd arno'n uwch. Y cynnig diweddaraf gan y cyflogwr yw cynnydd o 2.75%, sydd £340k yn uwch na'r hyn y caniatawyd amdano yn y gyllideb. Os derbynnir hyn, bydd yn rhaid cyllido'r costau ychwanegol.

**8.8** Mae'r newid i weithio o gartref wedi dangos pa mor ddibynnol yw'r Cyngor ar ei TG a'r staff sy'n cefnogi'r systemau TG. Mae newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn gweithio yn debygol o fod yn barhaol a bydd angen rhagor o foderneiddio. Cyn y pandemig, cydnabuwyd bod y cyfyngiadau o ran adnoddau TG yn cyfyngu ar ba mor gyflym y gellid moderneiddio gwasanaethau. Bydd angen buddsoddi rhagor mewn adnoddau TG i wneud y newidiadau angenrheidiol yn y dyfodol.

## 9 CYNLLUNIO ADFERIAD – AILOSOD, AILGYCHWYN, ADFYWIO

**9.1** Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, bydd angen mynd ati ar fyrder i ddarparu holl wasanaethau'r Cyngor mewn ffordd ddiogel sy'n cydymffurfio â'r holl ofynion yn ymwneud â chadw pellter cymdeithasol, ond bydd hefyd angen lliniaru effaith economaidd y cyfyngiadau drwy fuddsoddi mewn seilwaith a helpu cymunedau i adfer.

**9.2** Bydd symud tuag at ddarparu gwasanaethau â mesurau cadw pellter cymdeithasol nid yn unig yn cael effaith ar yr incwm a gynhyrchir (fel y nodir yn Adran 5 o'r adroddiad hwn) ond bydd hefyd yn golygu costau unwaith ac am byth i addasu adeiladau ac ati. Bydd hefyd yn arwain at gostau gwasanaeth uwch gan y bydd yn rhaid darparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol neu bydd yn arwain at brisiau uwch gan gontractwyr a fydd yn gorfod ystyried cadw pellter cymdeithasol yn y ffordd y maent yn gweithio. Mae'n anodd iawn amcangyfrif y costau hyn ar hyn o bryd, ond mae angen i'r Aelodau fod yn ymwybodol y bydd yn rhaid eu cyllido.

**9.3** Bydd buddsoddiad cyfalaf hefyd yn ffactor pwysig ac mae'r Cyngor wedi llwyddo i ddenu cyllid grant yn y gorffennol i adeiladu ysgolion newydd, cyfleusterau ôl-ofal, unedau diwydiannol newydd a ffyrdd newydd. Bydd yn ddiddorol gweld sut y bydd Llywodraeth Cymru a'r DU yn mynd ati i wneud hyn h.y. a fyddant yn parhau i fenthyca i gyllido gwariant er mwyn sbarduno'r economi neu a fyddant yn lleihau'r cyllid er mwyn digolledu rhywfaint o'r gost o ddelio â'r pandemig. Os mai'r cyntaf ydyw, mae angen i'r Cyngor fod yn barod i gyflwyno prosiectau posibl i ddenu cyllid. Mae paratoi cynigion a chynlluniau posibl yn gofyn am adnoddau sydd yn gyfyngedig o fewn y Cyngor ar hyn o bryd.

## 10 CRYNODEB O'R EFFAITH ARIANNOL

**10.1** Ceir crynodeb o effaith ariannol pandemig y coronafeirws ar gyllideb 2020/21 yn Nhabl 4 isod:-

**Tabl 4**

**Crynodeb o Effaith Ariannol Pandemig y Coronafeirws ar Gyllideb 2020/21**

| | **£'000** | **Rhagdybiaeth** | **Cyfeirnod yr adroddiad** |
|---|---|---|---|
| **Costau Ychwanegol a Amcangyfrifir/Hysbys** | | | |
| Delio â'r Pandemig – Mawrth i Mai | 838 | Yn seiliedig ar hawliad gwirioneddol | Para 3.2 |
| Delio â'r pandemig - Mehefin | 750 | Amcangyfrif | Para 3.2 |
| Colli Incwm | 3,426 | Yn seiliedig ar batrwm incwm y flwyddyn flaenorol ac amcangyfrif o gapasiti'r gwasanaeth | Para 4 |
| Arbedion Gwariant | (514) | Yn seiliedig ar batrymau gwariant y flwyddyn flaenorol | Para 5 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 600 | Yn seiliedig ar gynnydd o 10% yn y llwyth achosion | Para 6 |
| Premiwm Eiddo Gwag | 191 | Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith | Para 7.3 |
| Colledion yn y Dreth Gyngor | 400 | Yn seiliedig ar leihad o 1% yn y gyfradd gasglu | Para 7 |
| Gwasanaethau Oedolion | 450 | Seiliedig ar amcangyfrif cychwynnol Mai 2020 | Para 8.2 a 8.3 |
| Dyfarniad Cyflog Staff nad ydynt yn Addysgu | 95 | Ar sail dyfarniad cyflog o 2.75% net o weddill y cronfeydd wrth gefn | Para 8.7 |
| **Cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru** | | | |
| Delio â'r Pandemig | (1,588) | Yn seiliedig ar hawliadau gwirioneddol ac amcangyfrifedig hyd at fis Mehefin 2020 | |
| Colli Cefnogaeth Incwm | (1,000) | Yn seiliedig ar 2/3 o £78m ychwanegol a gyhoeddwyd i gefnogi'r incwm a gollwyd ac Ynys Môn yn derbyn 2% o'r cyllid | |
| Grant Pwysau'r Gaeaf | (300) | Yn unol â blynyddoedd blaenorol | |
| **Diffyg Posibl yn y gyllideb** | **3,648** | | |

**10.2** Yr hyn nad yw'n hysbys ar hyn o bryd yw'r cyllidarian ychwanegol sydd ei angen i gynnal y gwasanaeth TG ac i ddatblygu prosiectau cyfalaf, y gost o ddelio ag effaith y cyfyngiadau ar Wasanaethau Oedolion a Phlant a'r costau untro a'r costau parhaus ar gyfer darparu gwasanaethau sy'n sicrhau y cedwir pellter cymdeithasol.

**10.3** Efallai y daw cyllid pellach gan Lywodraeth Cymru i dalu rhai o gostau'r cynnydd yng Ngostyngiadau’r Dreth Gyngor ac i symud at ffordd newydd o weithio (yr 1/3 sy'n weddill o'r gronfa ychwanegol o £78m).

**10.4** Bydd yn rhaid i'r diffyg cyffredinol, beth bynnag fo'r ffigwr, gael ei gyllido o falans Cronfa wrth Gefn Gyffredinol y Cyngor o £7m ac er y dylai hyn fod yn ddigon i gyllido’r diffyg a amcangyfrifir, bydd yn gwanhau sefyllfa ariannol y Cyngor yn ddifrifol wrth iddo symud i 2021/22.

## 11 CYLLIDEB 2021/22 A THU HWNT

**11.1** Mewn blwyddyn arferol, byddai'r Cyngor yn dechrau ei broses o osod y gyllideb ar gyfer cyllideb refeniw y flwyddyn ddilynol ym mis Mehefin a mis Gorffennaf, gan gynnal gweithdai ar y gyllideb gydag Aelodau ym mis Medi a mis Hydref gyda chyllideb ddrafft yn cael ei chyhoeddi ym mis Tachwedd.

**11.2** Mae'r pandemig nid yn unig wedi gohirio'r broses hon ond hefyd wedi creu cryn dipyn o ansicrwydd ynghylch setliad llywodraeth leol a gallu'r Cyngor i gynyddu Treth y Cyngor.

**11.3** Yn 2020/21, cafodd y Cyngor gynnydd o 3.8% yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru a'r gobaith oedd bod llymder wedi dod i ben ac y byddai setliadau yn y dyfodol o leiaf yn talu am chwyddiant cyflogau a phrisiau. Efallai y bydd angen i'r dybiaeth hon newid ond, gan nad ydym wedi cael unrhyw awgrym gan Lywodraeth Cymru o’r hyn y maent yn ei gynllunio ar gyfer setliadau ariannol yn y dyfodol, mae'n anodd cynnig rhagdybiaeth gynllunio resymol.

**11.4** Yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2019, tybiwyd y byddai’r Dreth Gyngor yn parhau i godi tua 5% yn 2021/22 a 2022/23 er mwyn cyllidoariannu gwasanaethau ar eu lefel bresennol neu i gyllido buddsoddiad mewn rhai gwasanaethau pe bai setliad Llywodraeth Cymru yn well na'r disgwyl. Bydd angen ystyried effaith economaidd y pandemig ar Ynys Môn i weld a oes angen newid y rhagdybiaeth gynllunio hon.

**11.5** Caiff y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ei ddiweddaru a’i gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi. Bydd hwn yn llywio cyllideb 2021/22.

**ATODIAD B**

## LEFELAU CYNHYRCHU INCWM GWASANAETH TYBIEDIG AR GYFER 2020/21

| Gwasanaeth | Ebrill 2020 | Mai 2020 | Mehefin 2020 | Gorff 2020 | Awst 2020 | Medi 2020 | Hyd 2020 | Tach 2020 | Rhag 2020 | Ion 2021 | Chwe 2021 | Maw 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canolfannau Hamdden | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 25% | 25% | 25% | 25% | 50% | 50% | 50% |
| Meysydd Parcio | 0% | 0% | 10% | 20% | 25% | 25% | 50% | 50% | 50% | 75% | 75% | 75% |
| Prydau Ysgol | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 10% | 25% | 50% | 50% | 75% | 100% | 100% |
| Clybiau Gofal Ysgolion | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 10% | 25% | 50% | 50% | 75% | 100% | 100% |
| Rhent Uned Ddiwydiannol ac Eiddo Amrywiol | 0% | 90% | 90% | 90% | 80% | 80% | 80% | 90% | 90% | 95% | 95% | 95% |
| Ffioedd Angori | 0% | 0% | 0% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Ffioedd Cofrestru a Lansio Badau Dŵr Personol | 0% | 0% | 0% | 0% | 50% | 50% | 50% | 50% | 50% | 100% | 100% | 100% |
| Oriel Ynys Môn | 0% | 0% | 0% | 0% | 25% | 25% | 50% | 50% | 50% | 50% | 50% | 100% |
| Canolfan Byron | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 25% | 25% | 25% | 50% | 50% | 50% |
| Cartrefi Gofal Preswyl | 99% | 97% | 97% | 95% | 97% | 99% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Gwaith Stryd Priffyrdd | 0% | 0% | 50% | 50% | 50% | 50% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Pridiannau Tir | 50% | 50% | 50% | 50% | 50% | 50% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Ffioedd Cynllunio | 50% | 50% | 50% | 50% | 50% | 50% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Ffioedd Rheoli Adeiladu | 20% | 20% | 20% | 50% | 50% | 50% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Cofrestryddion | 0% | 0% | 0% | 0% | 20% | 25% | 50% | 50% | 50% | 75% | 75% | 75% |
| Ailgylchu | 0% | 0% | 25% | 50% | 50% | 50% | 75% | 75% | 75% | 75% | 75% | 75% |
| Casgliad Gwastraff Swmpus | 0% | 0% | 10% | 25% | 25% | 25% | 50% | 50% | 50% | 50% | 50% | 50% |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **13 GORFFENNAF 2020** |
| **PWNC:** | **CRYNODEB O GYFRIFON TERFYNOL DRAFFT 2019/20** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS – AELOD PORTFFOLIO (ADNODDAU)** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br>01248 751865<br>ClaireKlimaszewski@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr drafft ar gyfer 2019/20 a'r Fantolen Ddrafft fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno gwybodaeth am y cronfeydd wrth gefn a'r balansau.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r ffigyrau hyn wedi cael eu harchwilio eto ac y gallant newid o'r herwydd. Cyflwynir adroddiad i'r Cyngor wedi i'r Archwiliad Allanol gael ei gwblhau.

Argymhellion:-

**1)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft (heb eu harchwilio) ar gyfer 2019/20 - cyhoeddir y Datganiad o Gyfrifon llawn ar gyfer 2019/20 ar y ddolen a ganlyn:- https://www.anglesey.gov.uk/documents/Dogfennau-cy/Cyllid/Datganiad-or-Cyfrifon/2019/20/Datganiad-or-Cyfrifon-Drafft-2019-2020.pdf;

**2)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn clustnodedig ac yn cymeradwyo'r defnydd o, neu gynnydd i, gronfeydd wrth gefn unigol fel y nodir yn Atodiad 4;

**3)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r cronfeydd wrth gefn newydd, cyfanswm o £0.160m, fel y nodir yn Nhabl 3 isod;

**4)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r sefyllfa o ran balansau'r ysgolion;

**5)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi balansau'r CRT fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2020.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| DD - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim sylw |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylw |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad 1 – Adroddiad yn crynhoi’r prif ddatganiadau ariannol a’r effaith ar gronfeydd wrth gefn.
- Atodiad 2 – Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Drafft 2019/20.
- Atodiad 3 – Mantolen Ddrafft fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020.
- Atodiad 4 – Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig 2019/20.

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Adroddiad i’r Pwyllgor Gwaith ar 15 Mehefin 2020 ar alldro Cyllideb Refeniw 2019/20;
- Adroddiad i’r Pwyllgor Gwaith ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau, 2 Mawrth 2020.

## 1. PWRPAS

Bwriad yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r prif ddatganiadau ariannol drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Cyflwynir hefyd grynodeb o'r holl gronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor i'w cymeradwyo.

## 2. CEFNDIR

Mae'r cyfrifon drafft ar gyfer 2019/20 wedi cael eu cwblhau a bydd yr archwilwyr allanol, Deloitte LLP, yn cychwyn ar y gwaith o'u harchwilio ar 6 Gorffennaf 2020. Hon yw ail flwyddyn cynllun graddol Llywodraeth Cymru i gyflwyno dyddiad cau cynharach ar gyfer cau'r cyfrifon. Llwyddwyd i gwblhau'r Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer 2019/20 erbyn y dyddiad cau cynharach, sef 15 Mehefin 2020. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn dwyn ymlaen y dyddiad ar gyfer y cyfrifon archwiliedig terfynol o 30 Medi i 15 Medi 2020. Y flwyddyn nesaf, bydd trefniadau cau cyfrifon yn gynnar yn cael eu gweithredu yn llawn ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Datganiadau Cyfrifon drafft ar gyfer 2020/21 ac yn dilyn hynny gael eu cwblhau a'u cyhoeddi erbyn 31 Mai bob blwyddyn. Bydd angen cwblhau ac arwyddo'r cyfrifon terfynol wedi eu harchwilio erbyn 31 Gorffennaf ar gyfer y Datganiad Cyfrifon yn ymwneyd â 2020/21 ac yn dilyn hynny.

**2.1** Cyflwynir y Datganiad Cyfrifon drafft llawn ar gyfer 2019/20 i'r Pwyllgor Archwilio ar 21 Gorffennaf 2020. Cyflwynir y cyfrifon terfynol wedi eu harchwilio i'r Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor llawn ym mis Medi 2020.

**2.2** Caiff y prif ddatganiadau ariannol drafft, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer 2019/20 a'r Fantolen fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020 eu cyflwyno isod.

## 3. DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR DRAFFT AR GYFER 2019/20

**3.1** Caiff y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) drafft ar gyfer 2019/20 ei gyflwyno yn Atodiad 2.

**3.2** Dengys y datganiad hwn y gost o ddarparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn yn unol â'r gofynion cyfrifo statudol ac mae'n cynnwys Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) mewn un datganiad ariannol. Mae'n cyflwyno costau'r gwasanaethau yn wahanol i'r modd yr adroddwyd arnynt yn yr alldro drafft i'r Pwyllgor Gwaith ar 15 Mehefin 2020.

**3.3** Mae'r CIES yn cynnwys addasiadau cyfrifo statudol megis dibrisiant ac addasiadau ar gyfer pensiwn nad ydynt yn cael effaith ar yr alldro, felly nid oes modd tynnu cymhariaeth uniongyrchol rhwng yr adroddiad alldro a'r CIES.

**3.4** Mae'r CIES yn dangos mai £138.977m oedd cost net y gwasanaethau gyda diffyg o £7.683m ar ddarparu gwasanaethau. Mae'r Llywodraeth yn derbyn na ddylai trethdalwyr y Cyngor orfod cyllido addasiadau cyfrifo megis dibrisiant. O'r herwydd, nid yw cyfrifon awdurdodau lleol yn cynnwys effaith y rhain yn y nodyn Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Gyllido dan y Rheoliadau (Nodyn 7 yn Natganiad Cyfrifon yr Awdurdod). Mae'r nodyn hwn, ar gyfer 2019/20, yn dangos £8.782m o addasiadau cyfrifo sydd wedi cael eu canslo allan yn y Datganiad ar Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn (MIRS). Mae hyn yn golygu fod gwir effaith darparu gwasanaethau ar gronfeydd wrth gefn y Cyngor a'r CRT yn gostwng o ddiffyg o £7.683m ar ddarparu gwasanaethau i warged o £1.1m, sy'n gynnydd yng nghronfeydd wrth gefn y Cyngor. Mae hyn oherwydd tanwariant o £0.308m yng Nghronfa'r Cyngor, tanwariant o £0.210m yn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) a throsglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn clustnodedig y'u trafodir isod.

**3.5** Yn ychwanegol at hyn, mae gwarged o £35.844m ar incwm a gwariant cynhwysfawr arall o addasiadau cyfrifo sy'n gysylltiedig ag ailbrisio asedau anghyfredol, megis Tir ac Adeiladau, ac ail-fesur yr Ymrwymiad Pensiwn. Mae cyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr ar y CIES yn warged o £28.161m ar wasanaethau. Mae hyn yn gysylltiedig yn bennaf ag addasiadau cyfrifo yn hytrach na gwir gost y gwasanaethau.

**3.6** Yn yr Adroddiad ar Fonitro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer Chwarter 4 2020/21, 15 Mehefin 2020, dygwyd sylw at danwariant net rhagamcanedig o £0.308m ar gyfer Cronfa'r Cyngor (tudalen 2 yn Atodiad 1 yr adroddiad). Mae'r datganiad cyfrifon hefyd yn dwyn sylw at y ffaith bod tanwariant o £0.308m yng Nghronfa'r Cyngor ar gychwyn y cyfnod archwilio. Fodd bynnag, gall hyn newid os bydd yr archwilwyr yn argymell unrhyw addasiadau pellach ar ôl yr archwiliad. Bydd Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol y Cyngor yn cynyddu gan y swm hwn o berfformiad ariannol y Cyngor yn 2019/20.

**3.7** Mae Tabl 1 isod yn dangos y symudiadau yng nghronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ac roedd balans yr holl gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar 31 Mawrth 2020 yn £25.944m, cynnydd o £1.1m (4.2%). Dylid nodi bod Cronfa Wrth Gefn y CRT, Balansau Ysgolion a'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf yn gronfeydd wedi'u clustnodi na fedrir ond eu defnyddio i'w pwrpas penodedig.

**Tabl 1 – Symudiadau o Gronfa Wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor yn ystod 2019/20**

| Crynodeb o'r Symudiadau ym Malansau/Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor yn 2019/20 | Cronfa Wrth Gefn Cyffredinol Cronfa'r Cyngor | Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig Cronfa'r Cyngor | Cronfa Wrth Gefn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | Cronfeydd Wrth Gefn Ysgolion | Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn defnydd-iadwy |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eitemau sy'n effeithio ar Gronfa Wrth Gefn y Cyngor 2019/20 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Balans Agoriadol Cronfa Wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor 1 Ebrill 2019 | (5,912) | (8,728) | (8,387) | (631) | (1,186) | (24,844) |
| Gor (Tan)wariant Net 2018/19 | (308) | 0 | (210) | 0 | 0 | (518) |
| Balans y Cyngor ar ôl y gorwariant | (6,220) | (8,728) | (8,597) | (631) | (1,186) | (25,362) |
| Trosglwyddiadau Net o/(i) Gronfeydd Wrth Gefn ar gyfer cyllid a gymeradwywyd | (840) | (32) | 0 | 434 | (144) | (582) |
| Trosglwyddiad Net i Gronfa Wrth Gefn y CRT ar gyfer y flwyddyn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Balans y Gronfa Wrth Gefn Cyffredinol ar 31 Mawrth 2020 | (7,060) | (8,760) | (8,597) | (197) | (1,330) | (25,944) |

**3.8** Mae Tabl 1 uchod yn grynodeb o'r symudiad yn y cronfeydd wrth gefn oherwydd y perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn a'r symudiadau net i/o'r cronfeydd wrth gefn. Mae Tabl 2 isod yn crynhoi'r symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn gan ddefnyddio'r wybodaeth o'r Datganiad Cyfrifon. Mae hon yn ffordd wahanol o gyflwyno'r wybodaeth ond mae tablau 1 a 2 yn arwain at yr un balansau yn y cronfeydd wrth gefn.

**Tabl 2**

| Dadansoddiad o'r Symudiad yng Nghronfa'r Cyngor a Chronfeydd Wrth Gefn Gyffredinol y CRT yn 2019/20 | Cronfa'r Cyngor £m | CRT £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|
| **Y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol agoriadol ar 1 Ebrill 2019** | **(5.912)** | **(8.387)** | **(14.299)** |
| Y diffyg net ar ddarparu gwasanaethau (Datganiad Cyfrifon (DC) tudalen 22) | 9.945 | (2.262) | 7.683 |
| Addasiadau cyfrifo statudol a gafodd eu canslo allan yn yr MIRS (DC tudalen 22, 23 a thudalen 34) | (10.690) | 2.052 | (8.638) |
| Balans net cyn trosglwyddiadau o'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig i gyllido costau clustnodedig o fewn costau'r gwasanaethau | (6.657) | (8.597) | (15.254) |
| Defnydd o gronfeydd wrth gefn clustnodedig i gyllido costau clustnodedig o fewn costau'r gwasanaethau (ac eithrio symudiadau rhwng y gronfa wrth gefn gyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig a nodir uchod) (DC tudalen 23) | (0.403) | - | (0.403) |
| **Balans Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2020** | **(7.060)** | **(8.597)** | **(15.657)** |
| Y balansau gweddilliol yn y cronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau ysgolion (DC tudalen 20) | (10.287) | - | (10.287) |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy sydd ar gael i'r Cyngor ar 31 Mawrth 2020** | **(17.347)** | **(8.597)** | **(25.944)** |

**3.9** Yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth 2020, cafodd isafswm y balans a argymhellir ar gyfer y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol ei osod ar £7.11m. Roedd y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol ar 31 Mawrth 2020 yn £7.060m, sydd ychydig yn is na'r ffigwr hwn ond, yn ychwanegol at hyn, mae gwerth £8.760m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig sy'n gysylltiedig â Chronfa'r Cyngor. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys yr eitemau a nodwyd wedi cyhoeddi'r datganiad cyfrifon drafft.

Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch cyllido'r Cyngor yn y dyfodol yn dilyn y Pandemig Coronafeirws, mae'n hynod o bwysig sicrhau bod lefel Cronfa Wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor yn cael ei chynnal ar neu o gwmpas yr isafswm a argymhellir. Bydd hyn yn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o gyllid i gwrdd ag unrhyw wariant annisgwyl ac y gall gyllido unrhyw orwariant yn y dyfodol. Dros y blynyddoedd, mae'r cyllidebau hynny nad oedd defnydd llawn yn cael ei wneud ohonynt wedi cael eu dileu ac mae risg gynyddol y bydd gwasanaethau'n gorwario ar eu cyllidebau, yn enwedig y gwasanaethau hynny sy'n cael eu harwain gan y galw. Mae sicrhau bod y Cyngor yn cynnal lefel iach o Gronfeydd Wrth Gefn yn lliniaru effaith y risg honno.

## 4 MANTOLEN DDRAFFT FEL YR OEDD AR 31 MAWRTH 2020

**4.1** Mae Atodiad 3 yn cyflwyno mantolen ddrafft y Cyngor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020.

**4.2** Gwelwyd cynnydd yn asedau net y Cyngor o £162.456m ar 31 Mawrth 2019 i £190.618m ar 31 Mawrth 2020. Mae hyn o ganlyniad i ychwanegu Neuadd y Farchnad, Caergybi ac ysgol newydd Ysgol Santes Dwynwen, Niwbwrch, ailbrisio asedau eraill y Cyngor a chynnydd yn yr asedau cyfredol megis arian parod a chywerthoedd arian (andeuon/buddsoddiadau sy'n ddyledus ymhen tri mis). Bydd y Fantolen yn newid pan fydd canlyniadau Prisiad diwygiedig o'r Gronfa Bensiwn yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Penderfynwyd adolygu Prisiad y Gronfa Bensiwn yn ddiweddar er mwyn deall effaith y Pandemig ar y gronfa bensiwn. Ni fydd hyn yn cael effaith ar yr alldro ar gyfer 2019/20 nac ar gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy y Cyngor sy'n cynnwys y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol.

**4.3** Roedd gostyngiad o ran benthyciadau tymor hir, o £127.352m i £124.424m oherwydd i fenthyciad a oedd yn aeddfedu yn 2019/20 gael ei had-dalu. Roedd cynnydd o £9.302m yn y benthyca tymor byr, sydd yn sylweddol rhatach i'w gyllido na benthyca tymor hir. Roedd hyn oherwydd yr angen i drosi benthyca mewnol i fenthyca allanol er mwyn cynnal balansau arian y Cyngor.

## 5. CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG

**5.1** Mae Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig yn rhan hanfodol o'r modd y caiff y Cyngor ei gyllido ac yn sicrhau bod cyllid penodol yn cael ei ddyrannu i gwrdd ag ymrwymiadau y gwyddys amdanynt neu rai a all godi yn y dyfodol, i gyllido prosiectau ar gyfer y tymor hwy sy'n parhau am fwy nag un flwyddyn ariannol ac er mwyn dal grantiau a dderbyniwyd ond sydd heb eu gwario rhag ofn iddynt gael eu crafangu'n yn ôl rhywbryd yn y dyfodol. Dangosir y symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3 – Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig 2019/20**

| | **Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig £'m** |
|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2019 | 8.728 |
| | |
| Symudiadau net ar gronfeydd presennol | 0.061 |
| Trosglwyddiadau i mewn o'r Balansau Cyffredinol | 0.211 |
| Cronfeydd Wrth Gefn Newydd Arfaethedig a grëwyd yn ystod y flwyddyn o refeniw (gweler Tabl 4 isod) | 0.160 |
| Cronfeydd Wrth Gefn nad oes eu hangen mwyach a drosglwyddwyd yn ôl i'r Balansau Cyffredinol | -0.400 |
| | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **8.760** |

**5.2** Dengys Tabl 4 isod y cronfeydd wrth gefn clustnodedig newydd y mae angen i'r Pwyllgor Gwaith eu cymeradwyo:-

**Tabl 4 – Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig Newydd Arfaethedig yn ystod 2019/20**

| Gwasanaeth | Cronfa Wrth Gefn | Categori | Balans ar 1 Ebrill 2019 | Balans ar 31 Mawrth 2020 | Gofynnir am gymeradwyaeth ar gyfer Balansau 2019/20 a/neu Gyllid a Ddygwyd Ymlaen i 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig Newydd i'w Cymeradwyo** | | | | | |
| **Gwastraff** | **Ffioedd Corff Cymeradwyo Cynaliadwy (SAB)** | **CLUSTNODWYD** | **-** | **6,560** | **Cynorthwyo i gyllido ffioedd statudol mewn perthynas â gwaith draenio** |
| **Priffyrdd** | **Cyfraniad Datblygwr - Priffyrdd** | **CLUSTNODWYD** | **-** | **25,000** | **Maent yn cael eu cyllido gan gyfraniadau datblygwyr a byddant yn cael eu defnyddio gan y Gwasanaeth Priffyrdd er Budd y Cyhoedd** |
| **Dysgu - Addysg** | **Cronfa Wrth Gefn Cau Edu-School** | **CLUSTNODWYD** | **-** | **93,149** | **Cyllido costau ychwanegol yn dilyn cau ysgolion fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif** |
| **Dysgu - Addysg** | **Cronfa Wrth Gefn Rhesymoli Ysgolion** | **CLUSTNODWYD** | **-** | **35,756** | **Cynorthwyo i gyllido costau refeniw ychwanegol yn dilyn cau ysgolion fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif** |
| **Cyfanswm** | | | | **160,465** | |

**5.3** Ceir diweddariad manwl ar y cronfeydd wrth gefn yn Atodiad 4.

## 6. BALANSAU YSGOLION

**6.1** Ar 31 Mawrth 2020, roedd gan 9 allan o 40 o ysgolion cynradd ddiffyg yn eu balansau (12 ar 31 Mawrth 2019). Roedd gan 3 o'r 5 ysgol uwchradd ddiffyg yn eu balansau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (3 ar 31 Mawrth 2019), roedd gan yr Ysgol Arbennig ddiffyg hefyd ar 31 Mawrth 2020. Gwerth cyfunol diffyg ysgolion yw £1.2m (£0.93m ar 31 Mawrth 2019). Mae Tabl 5 yn rhoi crynodeb o falansau ysgolion:-

**Tabl 5**

| Disgrifiad | Balans ar 1 Ebrill 2019 £'m | Symudiad i Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig £'m | Symudiadau o Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig £'m | Balans ar 31 Mawrth 2020 £'m |
|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd | (0.950) | (1.810) | 1.785 | (0.974) |
| Ysgolion Uwchradd | 0.259 | (1.098) | 1.532 | 0.693 |
| Ysgolion Arbennig | 0.060 | (0.090) | 0.115 | 0.085 |
| | **(0.631)** | **(2.998)** | **3.432** | **(0.197)** |

Mae lefel balansau ysgolion wedi gostwng o £2.46m yn 2015/16, pan oeddynt ar eu huchaf, i £0.197m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, gostyngiad o 92% mewn pum mlynedd ac mae'n adlewyrchu'r anawsterau ariannol sy'n wynebu mwyafrif o ysgolion y Cyngor.

## 7. BALANS Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

**7.1** Roedd balans agoriadol y CRT ar 1 Ebrill 2019 yn £8.387m. Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd tanwariant o £0.210m oherwydd prosiectau cyfalaf a oedd yn llithro, gan arwain at falans ar ddiwedd y flwyddyn o £8.597m. Bydd y balans hwn yn cael ei ail-fuddsoddi yn y CRT yn y dyfodol.

## DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR DRAFFT 2019/20

| 2019/20 | | | Gwasanaethau | Nodyn | 2018/19 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros £'000** | **Incwm Gros £'000** | **Gwariant Net £'000** | | | **Gwariant Gros £'000** | **Incwm Gros £'000** | **Gwariant Net £'000** |
| 73,291 | (15,907) | 57,384 | Dysgu Gydol Oes | | 70,793 | (14,660) | 56,133 |
| 40,699 | (11,431) | 29,268 | Gwasanaethau Oedolion | | 37,503 | (8,952) | 28,551 |
| 11,753 | (1,072) | 10,681 | Gwasanaethau Plant | | 11,876 | (1,199) | 10,677 |
| 5,983 | (4,098) | 1,885 | Tai | | 4,949 | (3,966) | 983 |
| 26,793 | (6,390) | 20,403 | Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | | 24,934 | (5,570) | 19,364 |
| 12,291 | (6,317) | 5,974 | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | | 12,694 | (7,272) | 5,422 |
| 5,666 | (261) | 5,405 | Trawsnewid | | 5,548 | (226) | 5,322 |
| 26,947 | (17,679) | 9,268 | Adnoddau | | 28,187 | (19,454) | 8,733 |
| 2,245 | (412) | 1,833 | Busnes y Cyngor | | 1,790 | (253) | 1,537 |
| 1,936 | (332) | 1,604 | Costau Corfforaethol a Democrataidd | | 2,148 | (1,144) | 1,004 |
| 482 | - | 482 | Rheolaeth Gorfforaethol | | 579 | - | 579 |
| 953 | - | 953 | Costau heb eu dosbarthu | | 134 | - | 134 |
| 12,554 | (18,717) | (6,163) | Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | | 12,079 | (17,843) | (5,764) |
| **221,593** | **(82,616)** | **138,977** | **Diffyg ar Weithrediadau sy'n Parhau** | | **213,214** | **(80,539)** | **132,675** |
| | | 23,105 | Gwariant gweithredu arall | 12 | | | 22,129 |
| | | 8,982 | Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi | 13a | | | 10,405 |
| | | (163,381) | Trethiant ac incwm grant amhenodol | 14 | | | (157,047) |
| | | **7,683** | **Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | | | **8,162** |
| | | (13,487) | Gwarged ar ailbrisio asedau nad ydynt yn gyfredol | 11c, 15 & 17 | | | (6,152) |
| | | (22,357) | Ail-fesur y rhwymedigaeth Pensiwn Net | 11ch & 41 | | | 18,734 |
| | | **(35,844)** | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **12,582** |
| | | | | | | | |
| | | **(28,161)** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **20,744** |

## MANTOLEN DDRAFFT AR 31 MAWRTH 2020

| | Nodyn | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|---|
| Eiddo, offer a chyfarpar | 15 | 414,585 | 396,452 |
| Asedau Treftadaeth | 17 | 3,640 | 3,676 |
| Eiddo Buddsoddi | 18 | 6,189 | 6,000 |
| Asedau Aniriaethol | 19 | 501 | 701 |
| Dyledwyr Tymor Hir | 24 | 166 | 266 |
| **Asedau Tymor Hir** | | **425,081** | **407,095** |
| | | | |
| Asedau a ddelir i'w gwerthu | 21 | 763 | 1,557 |
| Rhestrau stoc | 23 | 333 | 300 |
| Dyledwyr tymor byr | 24 | 32,606 | 29,653 |
| Arian parod a chywerthoedd arian | 25 | 23,045 | 15,825 |
| **Asedau Cyfredol** | | **56,747** | **47,335** |
| | | | |
| Benthyca tymor byr | 44 | (16,837) | (7,535) |
| Credydwyr tymor byr | 26 | (20,429) | (18,151) |
| Darpariaethau tymor byr | 27 | (413) | (429) |
| Derbyniadau grantiau cyfalaf ymlaen llaw | 37 | (1,993) | (2,815) |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | **(39,672)** | **(28,930)** |
| | | | |
| Credydwyr tymor hir | 26 | (159) | (157) |
| Darpariaethau tymor hir | 27 | (4,766) | (4,805) |
| Benthyca tymor hir | 44 | (124,424) | (127,352) |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 41 | (122,189) | (130,730) |
| **Rhwymedigaethau tymor hir** | | **(251,538)** | **(263,044)** |
| | | | |
| **Asedau Net** | | **190,618** | **162,456** |
| | | | |
| Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy | MIRS | 25,944 | 24,844 |
| Cronfeydd wrth gefn nad ellir eu defnyddio | 11 | 164,674 | 137,612 |
| | | | |
| **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn** | | **190,618** | **162,456** |

| Gwasanaeth | Cronfa Wrth Gefn | Categori | Balans ar 1 Ebrill 2019 | Balans ar 31 Mawrth 2020 | Gofynnir am gymeradwyaeth ar gyfer Balansau 2019/20 a/neu symiau a Ddygir Ymlaen i 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | £ | £ | |
| Corfforaethol | Cyfraniadau Refeniw na ddyrannwyd | **GWARIANT CYFALAF** | 1,111,408 | 842,917 | Ia – Mae cynlluniau'r prosiect yn ymestyn dros fwy nag un flwyddyn ariannol. Balans a ddelir fel arian wrth gefn i gyllido gwariant cyfalaf. |
| Corfforaethol | Tâl Cyfartal | **TÂL CYFARTAL** | 363,305 | 50,000 | Ia – Mae'n ofynnol cadw'r gronfa wrth gefn tan ddiwedd 2021 oherwydd estyniad yn yr amser a ganiateir i wneud hawliad. |
| Corfforaethol | Buddsoddi i Arbed | **CLUSTNODWYD** | 401,864 | 312,118 | Ia – Mae cynlluniau yn ymestyn dros fwy nag un flwyddyn ariannol ac mae pob prosiect ar gamau amrywiol. |
| Corfforaethol | Cost Newid | **CLUSTNODWYD** | 280,092 | 231,828 | Ia – Defnyddir y gronfa wrth gefn i gyllido prosiectau newid sydd angen cyllidd ychwanegol. |
| Corfforaethol | Prosiectau a gyllidir gan arian wrth gefn cyfyngedig | **CLUSTNODWYD** | 111,642 | 131,872 | Ia – Defnyddir y gronfa wrth gefn i gyllido prosiectau yr ymrwymwyd iddynt yn flaenorol o'r gyllideb digwyddiadau annisgwyl, ond bu rhywfaint o lithriad yn y cynlluniau. |
| Corfforaethol - Adnoddau | Cronfa Wrth Gefn Yswiriant (Trychineb) | **CRONFA YSWIRIANT** | 1,250,000 | 1,250,000 | Ia – Mae'r Rheolwr Yswiriant yn ystyried fod lefel y gronfa wrth gefn yn ddigonol ar gyfer maint yr Awdurdod. |
| Busnes y Cyngor - Adain Gyfreithiol | System Gyfrifiadurol Pridiannau Tir | **CLUSTNODWYD** | 8,100 | - | Amherthnasol |
| Busnes y Cyngor - Polisi | System Rheoli Polisi | **CLUSTNODWYD** | 8,363 | - | Amherthnasol |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff - Priffyrdd | Isadeiledd Arosfannau Bysiau | **CLUSTNODWYD** | 54,392 | 48,657 | Ia – Defnyddir y gronfa wrth gefn i gyllido eitemau'n ymwneud â chludiant cyhoeddus yn y dyfodol. |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff - Priffyrdd | Gwaith Cynnal a Chadw'r Gaeaf | **CLUSTNODWYD** | 54,480 | 54,480 | Ia – Bydd y gronfa wrth gefn yn cael ei dwyn ymlaen oni bai bod achosion o dywydd garw yn ystod misoedd olaf y flwyddyn. |

| Gwasanaeth | Cronfa Wrth Gefn | Categori | Balans ar 1 Ebrill 2019 | Balans ar 31 Mawrth 2020 | Gofynnir am gymeradwyaeth ar gyfer Balansau 2019/20 a/neu symiau a Ddygir Ymlaen i 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | £ | £ | |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff - Priffyrdd | Priffyrdd - Maes Awyr | **CYFYNGEDIG** | 70,880 | 40,433 | Ia – Bydd y gronfa wrth gefn yn cael ei defnyddio i dalu costau rhedeg Maes Awyr Môn yn y dyfodol. |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff - Priffyrdd | Cronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfyngedig Priffyrdd – Grant Llifogydd | **CYFYNGEDIG** | 36,473 | 36,473 | Ia – Bydd y gronfa wrth gefn yn cael ei defnyddio i gyllido prosiectau llifogydd yn y dyfodol. |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Priffyrdd | Cronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfyngedig – Llwybr yr Arfordir | **CYFYNGEDIG** | 7,575 | 7,575 | Ie – Bydd y gronfa wrth gefn yn cyfrannu at gostau prosiectau llwybr arfordir yn y dyfodol. |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Rheoli Gwastraff | Gwario i Arbed – Toiledau Cyhoeddus | **CLUSTNODWYD** | 7,406 | - | Amherthnasol |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Rheoli Gwastraff | Cronfa Wrth Gefn Gwastraff / Ailgylchu | **DAL GRANT** | 267,476 | 250,000 | Ia – Bydd y gronfa wrth gefn i dalu costau ailgylchu yn y dyfodol, yn unol ag amodau'r grant. |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Rheoli Gwastraff | Gwaith Trin Gogledd Cymru | **CYFYNGEDIG** | 1,155,715 | 911,190 | Ia – Mae cynlluniau i wario cyfran o'r gronfa wrth gefn yn 2020/21. Bydd rhaid cadw swm o £500k yn y gronfa wrth gefn. |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Rheoli Gwastraff | Incwm Proses Ailgylchu | **CYFYNGEDIG** | 635,130 | 635,130 | Ia – Mae amodau grant LIC yn nodi bod rhaid ei ddefnyddio dim ond at ddibenion ailgylchu yn y dyfodol. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Datblygu Economaidd | Pier Biwmares – Paentio | **CLUSTNODWYD** | 100,000 | 100,000 | Ia – Mae'r gwaith wedi llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf, ac mae'n debygol o ddigwydd yn ystod haf 2020. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Datblygu Economaidd | Datblygiadau Mawr | **CLUSTNODWYD** | 232,508 | 197,352 | Ia – Bydd y gronfa wrth gefn yn cael ei chadw hyd nes gwneir penderfyniad terfynol ynghylch Wylfa Newydd. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Datblygu Economaidd | Cronfa Wrth Gefn Datblygu Economaidd – Ynys Ynni | **CLUSTNODWYD** | 11,979 | 85,936 | Ia – Bydd y gronfa wrth gefn yn cael ei chadw hyd nes gwneir penderfyniad terfynol ynghylch Wylfa Newydd. |

| Gwasanaeth | Cronfa Wrth Gefn | Categori | Balans ar 1 Ebrill 2019 | Balans ar 31 Mawrth 2020 | Gofynnir am gymeradwyaeth ar gyfer Balansau 2019/20 a/neu symiau a Ddygir Ymlaen i 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | £ | £ | |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Datblygu Economaidd | Datblygiadau Mawr – Cynllunio | **CLUSTNODWYD** | 511,606 | 392,456 | Ia – Bydd y gronfa wrth gefn yn cael ei chadw hyd nes gwneir penderfyniad terfynol ynghylch Wylfa Newydd. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Datblygu Economiadd | Costau Gweithredu Melin Llynnon | **CLUSTNODWYD** | 12,708 | 57,202 | Ia – Mae cyfran o'r gronfa wrth gefn wedi'i dyrannu i dalu am gontractwyr arbenigol a fydd yn cynnal arolwg o gyflwr y felin. |
| Tai | Tai Fforddiadwy | **CLUSTNODWYD** | 250,643 | 250,643 | Ia – Defnyddir y gronfa wrth gefn i gyllido costau dod â thai yn ôl i gartrefi yn y dyfodol. |
| Tai | Cefnogi Pobl – Gweinyddu | **CYFYNGEDIG** | 774,401 | 705,827 | Ia – Mae cynllun i wario'r gronfa wrth gefn yn ystod y 9 mlynedd ariannol nesaf, a disgwylir i'r adran gyfrannu cyllid ychwanegol at y gronfa wrth gefn hon. |
| Dysgu – Addysg | Prydau Ysgol am Ddim | **CLUSTNODWYD** | 60,000 | 72,095 | Ia – Cyllid dros ben o grant gan LlC mewn perthynas â Chredyd Cynhwysol yw'r gronfa wrth gefn hon a disgwylir y bydd y cyllid wedi cael ei ddefnyddio'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol nesaf. |
| Dysgu – Addysg | TRAC | **DAL GRANT** | 36,000 | 172,743 | Ia – Mae'r gronfa wrth gefn yn darparu sicrwydd rhag ofn y bydd cyllid Ewropeaidd yn cael ei gymryd yn ôl, yn ogystal â darparu clustog rhag ofn y bydd diffyg mewn cyllid cyfatebol ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill o'r prosiect - bydd y prosiect yn rhedeg tan 2023/24. |
| Dysgu – Addysg | Cynllun Salwch / Hysbysebu – Cynradd | **CYFYNGEDIG** | 35,873 | 129,857 | Ia – Pwrpas y gronfa wrth gefn yw darparu yswiriant mewnol i ysgolion sy'n cael eu heffeithio gan salwch staff. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Hamdden | Hamdden (Hawliad TAW) | **CLUSTNODWYD** | 772,633 | 762,154 | Ia – Defnyddir y gronfa wrth gefn i gyllido gwelliannau yn y gwasanaethau hamdden yn y dyfodol. |

| Gwasanaeth | Cronfa Wrth Gefn | Categori | Balans ar 1 Ebrill 2019 | Balans ar 31 Mawrth 2020 | Gofynnir am gymeradwyaeth ar gyfer Balansau 2019/20 a/neu symiau a Ddygir Ymlaen i 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | £ | £ | |
| Dysgu Gydol Oes – Diwylliant | Cronfa Brynu'r Amgueddfa | **CYFYNGEDIG** | 5,739 | 7,121 | Ia – Cyllid wedi'i neilltuo o roddion i'r Oriel na ellir eu defnyddio at unrhyw bwrpas arall yw hwn. |
| Rheoleiddio – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | Cronfa Wrth Gefn Trwyddedau | **CLUSTNODWYD** | 16,570 | 16,570 | Ia – Mae cynlluniau i uwchraddio offer TG wedi llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf. |
| Rheoleiddio – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | Cynllun Datblygu Lleol | **CLUSTNODWYD** | 167,517 | 167,517 | Ia – Pwrpas y gronfa wrth gefn yw cyllido'r cynllun datblygu lleol, sy'n cael ei weithredu gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ar ran yr Awdurdod, yn ystod y ddwy flynedd nesaf. |
| Rheoleiddio – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | Cronfa Wrth Gefn Prynu Gyda Hyder | **CLUSTNODWYD** | 6,234 | - | Amherthnasol |
| Rheoleiddio – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | Costau Cynllunio a Chyfreithiol | **CLUSTNODWYD** | 22,375 | 22,375 | Ia – Mae'n ofynnol ar gyfer unrhyw gostau cyfreithiol sylweddol a all godi os yw'r gwasanaeth yn mynd tu hwnt i'w gyllideb. |
| Rheoleiddio – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | Model Rhagfynegi Ansawdd Dŵr Ymdrochi | **CLUSTNODWYD** | 10,000 | 9,725 | Ia – Defnyddir y gronfa wrth gefn i dalu am waith cynnal a chadw yn ymwneud â'r orsaf dywydd am gyfnod o 10 mlynedd, hyd at 2028/29. |
| Rheoleiddio – Cynllunio a Datblygu Economaidd | Cynllunio – Galluogrwydd a Chapasiti | **CLUSTNODWYD** | 75,000 | 109,399 | Ia – Mae cynlluniau i wario'r gronfa wrth gefn wedi llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'n debygol y bydd cynnydd o thua £60k yn y gronfa. |
| Adnoddau | Refeniw a Budd-daliadau | **CLUSTNODWYD** | 34,992 | 24,762 | Ia – Defnyddir y gronfa wrth gefn i gyllido staff dros dro ac ymgynghorwyr yn ôl y galw. |
| Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Oedolion a Phlant | Unigolion Agored i Niwed Corfforaethol | **CLUSTNODWYD** | 276,000 | - | Amherthnasol |

| Gwasanaeth | Cronfa Wrth Gefn | Categori | Balans ar 1 Ebrill 2019 | Balans ar 31 Mawrth 2020 | Gofynnir am gymeradwyaeth ar gyfer Balansau 2019/20 a/neu symiau a Ddygir Ymlaen i 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | £ | £ | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Oedolion a Phlant | Trawsnewid | **CLUSTNODWYD** | 33,561 | 32,525 | Ia – Mae cynlluniau i wario'r gronfa wrth gefn yn 2020/21, pan y'i defnyddir i dalu costau gwaith maes mewn perthynas ag anableddau dysgu. |
| Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Oedolion a Phlant | Contractau Staff Gofal Cymdeithasol | **CLUSTNODWYD** | 271,714 | 271,714 | Ia – Defnyddir y gronfa wrth gefn i gyllido cost staff asiantaeth gwasanaethau cymdeithasol ychwanegol yn y dyfodol. |
| Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Oedolion a Phlant | Cronfa Wrth Gefn Morgeisi Gofalwyr Maeth | **CLUSTNODWYD** | 65,650 | - | Amherthnasol |
| Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Oedolion a Phlant | Cronfa Wrth Gefn Cyd-gyllido – Gwasanaethau Cymdeithasol a Dysgu | **CLUSTNODWYD** | 180,795 | 180,795 | Ia – Defnyddir y gronfa wrth gefn os oes diffyg yn y cyllid gan Gyrff Cyhoeddus mewn perthynas â lleoliadau gofal cymdeithasol. |
| Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Oedolion a Phlant | Gofal Nyrsio | **CLUSTNODWYD** | 53,129 | - | Amherthnasol |
| Trawsnewid – AD | SCWDP | **DAL GRANT** | 40,430 | 28,249 | Ie – Defnyddir y gronfa wrth gefn i dalu costau hyfforddi Gweithiwr Cymdeithasol dan hyfforddiant. |
| Corfforaethol | Addasiadau Pensiwn | **CLUSTNODWYD** | -1,154,694 | 1,154,694 | Blwyddyn olaf addasiad cyfrifo pensiynau o Fawrth 2016. |
| **Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd Newydd i'w Cymeradwyo** | | | | | |
| Gwastraff | Ffioedd Corff Cymeradwyo Cynaliadwy (SAB) | **CLUSTNODWYD** | - | 6,560 | Cynorthwyo i gyllido ffioedd statudol mewn perthynas â gwaith draenio. |
| Priffyrdd | Cyfraniad Datblygwr – Priffyrdd | **CLUSTNODWYD** | - | 25,000 | Cyfraniadau gan ddatblygwyr y'u defnyddir gan y Gwasanaeth Priffyrdd er Budd y Cyhoedd. |
| Dysgu – Addysg | Cronfa Wrth Gefn Cau Edu-School | **CLUSTNODWYD** | - | 93,149 | Cyllido costau ychwanegol yn dilyn cau ysgolion fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. |
| Dysgu – Addysg | Rhesymoli Ysgolion | **CLUSTNODWYD** | - | 35,756 | Cyfrannu at gyllido costau refeniw fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. |
| **Cyfanswm** | | | **8,727,667** | **8,760,156** | |